



# Diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998 a Rheoliadau Bara a Blawd (Gogledd Iwerddon) 1998

Dyddiad: 1 Medi 2022

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig sy'n ffynnu, a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sy'n cael eu cydnabod ledled y byd.

Rydym yn gweithio'n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrrff hyd braich i fodloni ein huchelgais, sef gwneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach, a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell.



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy <http://www.gov.uk/government/publications>

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

[breadandflour2022@defra.gov.uk](mailto:breadandflour2022@defra.gov.uk)

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .....	4
Manylion yr ymgynghoriad .....	5
Trosolwg o'r Rheoliadau Bwyd Perthnasol a'r Gwahaniaethau Cenedlaethol .....	10
Rheoliadau Bara a Blawd .....	11
Lefel Ofynnol y Maethynnau a Ychwanegir at Flawd.....	14
Manyleb Calsiwm Carbonad.....	16
Crynodeb o gynigion polisi .....	17
Cwestiynau.....	19
Asid ffolig .....	22
Crynodeb o'r cynigion polisi.....	24
Cwestiynau.....	28
Cwmpas Cyfnerthu Gorfodol.....	30
Crynodeb o'r cynigion polisi.....	31
Cwestiynau.....	32
Eithriadau.....	35
Melinau Bach.....	35
Cynhyrchion sy'n cynnwys y lefelau isaf o flawd .....	35
Crynodeb o gynigion polisi .....	37
Cwestiynau.....	39
Gorfodi.....	45
Y Cynnig.....	46
Cwestiynau.....	47
Cwestiynau Cyffredinol ar Weithredu Newidiadau Polisi .....	47

## Crynodeb Gweithredol

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ceisio safbwyntiau ar gynigion i ddiweddarau a diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998 a Rheoliadau Bara a Blawd (Gogledd Iwerddon) 1998 sy'n ymdrin â rheolau penodol ar labelu a chyfansoddiad bara a blawd. Yn bennaf, mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn orfodol i gyfnerthu blawd gwenith gwyn a blawd gwenith brown wedi'u melino nad ydynt yn gyflawn, sy'n cael eu gweithgynhyrchu a'u gwerthu yn y DU, â chalsiwm, haearn, thiamin a niasin, a hynny am resymau iechyd y cyhoedd i ddiogelu poblogaeth y DU rhag diffygion maethol.

Cododd galwadau am adolygiad o'r rheoliadau oherwydd y newidiadau deddfwriaethol ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).<sup>1</sup> Roedd y ceisiadau i'w hadolygu yn bennaf o ganlyniad i wahaniaeth rhwng y Rheoliadau Bara a Blawd a darnau eraill o ddeddfwriaeth bwyd o ran lefelau a manylebau fitaminau a mwynau a ychwanegir at fwydydd. Er ein bod wedi ceisio sicrhau bod y Rheoliadau Bara a Blawd yn gyson â deddfwriaeth safonau bwyd arall, rydym hefyd wedi ymrwymo i adolygu amrywiaeth o faterion eraill sy'n ymwneud â rhai o ddarpariaethau'r rheoliadau a godwyd gan randdeiliaid. Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn edrych ar sut y gellir sicrhau bod y rheoliadau'n arwain at iechyd gwell ar gyfer y cyhoedd, yn cefnogi diwydiant y DU, yn cynorthwyo awdurdodau gorfodi ac yn diogelu defnyddwyr.

Yn dilyn [ymgyngoriad cyhoeddus ledled y DU](#), cyhoeddodd llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ym mis Medi 2021 eu bwriad i fwrw ymlaen â threfniadau i orfodi cyfnerthu blawd gwenith nad yw'n wenith cyflawn ag asid ffolig, a hynny er mwyn helpu i atal diffygion y tiwb niwral mewn ffetysau. Er mwyn lleihau effaith y gofyniad hwn ar y diwydiant, lle bo modd, dylid ymgorffori newidiadau niferus o dan un set o ddiwygiadau. Felly, mae ychwanegu asid ffolig at y rhestr o faethynnau y mae'n rhaid eu hychwanegu at flawd gwenith nad yw'n gyflawn yn cael ei gydlynu fel rhan o'r adolygiad ehangach hwn o'r rheoliadau.

---

<sup>1</sup> Daeth Rheoliadau Bwyd (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) (Lloegr) 2021; Rheoliadau Bwyd (Tynnu Cydnabyddiaeth yn Ôl) (Diwygiadau Amrywiol) (Yr Alban) 2021; Rheoliadau Bwyd (Tynnu Cydnabyddiaeth yn Ôl) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 â'r trefniadau cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer blawd o aelod-wladwriaethau'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i ben. Mae hyn yn golygu y bydd angen i flawd gwenith a fewnforir o'r UE a'r AEE i Brydain Fawr gydymffurfio â gofynion cyfnerthu yn unol â'r Rheoliadau Bara a Blawd o fis Hydref 2022 ymlaen. O dan delerau Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon, mae cydnabyddiaeth gilyddol yn parhau i fod yn gymwys i flawd sy'n cael ei fewnforio o aelod-wladwriaethau'r UE i Ogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod blawd a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE i Ogledd Iwerddon wedi'i eithrio rhag gofynion y Rheoliadau Bara a Blawd. Ar yr un pryd, gwnaed newidiadau i ganiatáu gwerthu blawd heb ei gyfnerthu i'w allforio neu ei ddefnyddio mewn cynnyrch a oedd i'w allforio.

Mae dros 99% o gartrefi ym Mhrydain yn prynu bara, ac [mae chwarter yr holl nwyddau ym mhedair archfarchnad fwyaf y DU yn cynnwys blawd](#). Felly, bydd y cynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys melinwyr blawd, gweithgynhyrchwyr bwyd, cyfanwerthwyr, manwerthwyr, mewnforyr, awdurdodau gorfodi bwyd, a'r mwyafrif o ddefnyddwyr yn y DU. Hoffem glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), ochr yn ochr ag Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon a Safonau Bwyd yr Alban, wedi cytuno i weithio ar yr adolygiad hwn gyda'i gilydd o dan fframwaith cyffredin dros dro Safonau Ynghylch Cyfansoddiad a Labelu Bwyd, a hynny er mwyn gwneud ymdrech i alinio polisi'r DU cyn belled ag y bo modd. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cael ei gynnal ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Llywodraeth yr Alban ac Adran Iechyd Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Bydd swyddogion ledled y DU yn ystyried ychwanegu asid ffolig at flawd o dan y fframwaith Safonau Labelu a Chyfansoddiad Maeth (NLCS), gan fod ychwanegu fitaminau a mwynau at fwyd yn dod o fewn cwmpas y fframwaith hwn.

## Manylion yr ymgynghoriad

### Pam rydym yn ymgynghori

Mae ymgynghori ar newidiadau i gyfraith bwyd yn y DU yn ofynnol yn unol â Rheoliad Cyfraith Bwyd yr UE a ddargedwir (EC) 178/2002, a Rheoliad Cyfraith Bwyd yr UE (EC) 178/2002 fel sy'n cael ei gymhwyso yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn ceisio safbwyntiau ar y dewisiadau polisi a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn sydd wedi'u datblygu yn dilyn trafodaethau ag ystod o randdeiliaid perthnasol.

Diben yr ymgynghoriad yw sicrhau bod y Rheoliadau Bara a Blawd yn addas at eu diben ac yn cefnogi diwydiant y DU, wrth ddiogelu defnyddwyr ar yr un pryd.

Amcanion yr ymgynghoriad yw:

1. Deall safbwyntiau partiön sydd â buddiant ar y cynigion polisi a gyflwynir.
2. Asesu a yw'r cynigion newydd yn addas ac yn adlewyrchu anghenion y diwydiant, defnyddwyr ac awdurdodau gorfodi'r DU.
3. Archwilio unrhyw ganlyniadau anfwriadol o'r cynigion newydd nad ydynt wedi'u hystyried.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i rannu'n bum maes y mae'r cynigion yn ceisio mynd i'r afael â nhw:

- **Rhyngweithio â rheoliadau bwyd ehangach** – Mae cynigion polisi yn yr adran hon yn edrych yn bennaf ar y modd y gellir diweddarau'r rheoliadau i sicrhau cysondeb â deddfwriaeth safonau bwyd arall sy'n hwyluso dealltwriaeth a chydymffurfiaeth.
- **Asid ffolig** – Gan fod cyfnerthu ag asid ffolig eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus; mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar weithredu ymrwymiad y DU gyfan i gyflwyno'r gofyniad gorfodol i ychwanegu asid ffolig at flawd gwenith nad yw'n gyflawn. Mae'n amlinellu'r agweddau technegol sy'n ymwneud â'r polisi gan gynnwys y lefel arfaethedig o asid ffolig y dylid ei ychwanegu at flawd yn unol â nodau iechyd y cyhoedd er mwyn lleihau nifer y menywod beichiog sy'n profi diffygion y tiwb nerfol, ac ystyried cyfnod pontio addas i fusnesau allu addasu.
- **Cwmpas y Rheoliadau** – Mae rhan hon o'r ymgynghoriad yn egluro'r gwahanol ddehongliadau posib ynghylch cwmpas y gofynion cyfnerthu ar gyfer blawd gwenith. Nod y cynigion polisi yw sicrhau dealltwriaeth gyson ar draws y gadwyn gyflenwi bara a blawd, a sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu gorfodi'n lleol.
- **Yr hyn sydd wedi'i eithrio rhag gofynion cyfnerthu** – Mae'r adran hon yn ymdrin â chynigion i leihau'r baich rheoleiddiol ar fusnesau pan nad yw canlyniadau iechyd y cyhoedd y polisi mewn perygl. Mae cynigion yn ystyried eithrio melinau bach rhag gofynion cyfnerthu, gan ystyried cyfyngiadau ymarferol a thechnolegol y rhan hon o'r diwydiant. Mae'r cynigion hefyd yn ystyried eithrio blawd fel cynhwysyn sy'n cyfrif am lai na 10% y cynnyrch bwyd terfynol, gan gydnabod nad yw'r cynhyrchion hyn yn cyfrannu'n fawr at gymeriant deietegol y maethynnau ychwanegol hyn.
- **Gorfodi** – Mae adran olaf yr ymgynghoriad yn ymdrin â chynigion i gael trefn orfodi fwy cymesur, gan ychwanegu hysbysiadau gwella fel y cam cyntaf i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle i randdeiliaid rannu eu dewisiadau a'u barn ar yr opsiynau polisi a gyflwynir. Disgwylir i'r ymgynghoriad hwn fod o ddiddordeb i felinwyr, gweithgynhyrchwyr bwyd, awdurdodau gorfodi, grwpiau defnyddwyr a chyrff cyhoeddus. Rydym hefyd yn ceisio gwybodaeth ychwanegol i ddatblygu ein hasesiad o effeithiau opsiynau polisi, gan sicrhau bod y cynigion a gyflwynir yn addas ar gyfer cyflawni amcanion y polisi ac yn cael eu gwirio mewn perthynas â chanlyniadau anfwriadol posib. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i helpu i fireinio cynigion a llywio penderfyniadau polisi ar sut y bydd llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol dilynol.

## Y gynulleidfa

Er bod rhai o'r materion dan sylw yn ymwneud ag agweddau technegol ar gynhyrchu blawd, gall unrhyw un ymateb. Hoffem glywed gan unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â

diddordeb yn y mater hwn, gan gynnwys y diwydiant, awdurdodau gorfodi, sefydliadau defnyddwyr, ymarferwyr iechyd, academyddion, elusennau a defnyddwyr.

## Cwmpas daearyddol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal fel rhan o adolygiad y DU gyfan o Reoliadau Bara a Blawd 1998 a Rheoliadau Bara a Blawd (Gogledd Iwerddon) 1998 o dan Fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Safonau Cyfansoddiad a Labelu Bwyd y DU. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod cadwyni cyflenwi bara a blawd ledled y DU yn gyd-gysylltiedig, a bod llawer o'r data perthnasol ar y diwydiant melino yn cael ei gasglu ar sail y DU gyfan. Bydd ychwanegu asid ffolig at flawd yn cael ei ystyried gan swyddogion o dan y Fframwaith Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Maeth (NLCS). Bydd hyn yn helpu i hwyluso dull cyffredin o ymdrin ag unrhyw newidiadau polisi sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn yn y DU, gan gydnabod bod materion bwyd ac iechyd yn faterion datganoledig ac y bydd angen i bob gweinyddiaeth ddatganoledig lunio ei barn ei hun ar unrhyw newid posib i bolisi, gan gynnwys gorfodi.

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos o 1 Medi i 24 Tachwedd 2022. Dylai ymatebion ddod i law erbyn 23:59 ar 23 Tachwedd. Mae'n well gennym gael ymatebion trwy'r llwyfan Citizen Space.

Os na allwch ddefnyddio Citizen Space, gallwch lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori ac anfon eich ymateb dros e-bost i [breadandflour2022@defra.gov.uk](mailto:breadandflour2022@defra.gov.uk)

## Ymatebion ymgyrchoedd

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol i lywio eu hymateb. Gellir cynnal ymgyrchoedd, sef pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodaeth neu'r rheiny sy'n eu cefnogi, yn aml trwy awgrymu geiriad i ymatebwyr ei ddefnyddio. Mae ymatebion ymgyrchoedd fel arfer yn debyg iawn neu'r un fath yn union â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gellir dadansoddi ymatebion ymgyrchoedd ar wahân i ymatebion eraill er mwyn sicrhau y gellir crynhoi ehangder y safbwyntiau sy'n dod i law yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr ymatebion ymgyrchoedd i gyd yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o farn y cyhoedd, ac bydd ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o ba mor bwysig yw mater ym marn y cyhoedd. Hoffem i bawb ddweud eu dweud (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) trwy'r llwyfan Citizen Space os oes modd.

## Gwybodaeth am gyfrinachedd a diogelu data

1. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn: [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra). Bydd atodiad i grynodedb yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a wnaeth ymateb, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.
2. Efallai y bydd Defra yn dymuno cyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn ei rannu â'r cyhoedd heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft, cyfeiriad cartref, cyfeiriadau e-bost, ac ati).
3. Os cliciwch ar 'Hoffwn' wrth ymateb i gwestiwn sy'n gofyn a hoffech gadw unrhyw beth yn eich ymateb yn gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir ba wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac esbonio eich rhesymau dros hynny. Y rheswm am hyn yw oherwydd gall gwybodaeth mewn ymatebion i'r galwad hwn am dystiolaeth gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartion eraill yn unol â'r gyfraith rhyddid gwybodaeth (yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018). Mae arnom rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr uchod, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. Yn hyn o beth, byddai eich esboniad o'ch rhesymau dros fynnu cyfrinachedd ar gyfer eich ymateb llawn neu ran ohono yn ein helpu i gydbwyso'r rhwymedigaethau ar gyfer datgelu yn erbyn unrhyw rwymedigaeth gyfrinachedd. Os bydd cais am yr wybodaeth yr ydych wedi'i darparu yn eich ymateb i'r galwad hwn am dystiolaeth yn dod i law, byddwn yn rhoi ystyriaeth llawn i'ch rhesymau dros wneud cais am gyfrinachedd, ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos.
4. Os cliciwch 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn os hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond ni fydd eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat ar gael yn gyhoeddus.
5. Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd ledled y DU a bydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu rhannu â'r ASB yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Iechyd Gogledd Iwerddon.
6. Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" [Swyddfa'r Cabinet](#).
7. Mae ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i uwchlwytho fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

## Amdanoch chi

1. A hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? (Dewiswch un opsiwn yn unig)
  - Hoffwn



- Na hoffwn
- Os mai 'Hoffwn' oedd eich ateb, rhowch eich rheswm:

2. A ydych yn ymateb fel: (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Unigolyn – rydych yn ymateb gan rannu eich barn personol, yn hytrach na gweithredu fel cynrychiolydd swyddogol busnes/cymdeithas fusnes/sefydliad arall
- Corff sector cyhoeddus – mewn rhinwedd swyddogol yn cynrychioli sefydliad llywodraeth leol/darparwr gwasanaeth cyhoedd/corff sector cyhoeddus arall yn y DU neu rywle arall.
- Diwydiant – mewn rhinwedd swyddogol yn cynrychioli barn busnes
- Grŵp ymgyrchu/sefydliad anllywodraethol – mewn rhinwedd swyddogol yn cynrychioli sefydliad anllywodraethol/undeb llafur/sefydliad arall.
- Byd academiaidd – mewn rhinwedd swyddogol yn cynrychioli sefydliad academiaidd
- Arall (nodwch)

3. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich rôl neu'r maes rydych chi'n perthyn iddo orau? (Os oes gennych sawl rôl, dewiswch yr un sy'n cynrychioli orau eich buddiannau mewn perthynas ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn) (dewiswch un opsiwn yn unig)

- Melinydd blawd
- Cyflenwr cynhyrchion wedi'u cymysgu ymlaen llaw
- Manwerthwr
- Gweithgynhyrchwr bwyd
- Awdurdod gorfodi
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Defnyddiwr
- Arall, nodwch:

3a) Os ydych yn ymateb ar ran busnes, nodwch isod faint y busnes<sup>2</sup> yr ydych yn ymateb ar ei ran?

- Unig berchennog (busnes sy'n cael ei reoli gan un person hunangyflogedig)
- Partneriaeth arferol (busnes sy'n cael ei reoli gan ddau neu ragor o bobl hunangyflogedig)

---

<sup>2</sup> At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwyd [dosbarthiadau maint busnes swyddogol y llywodraeth](#) i wahaniaethu rhwng categorïau.

- Busnesau bach a chanolig (SMEs) (0 i 249 o weithwyr)
- Busnes mawr (250 neu fwy o weithwyr)

4. Beth yw enw eich sefydliad?

5. Dewiswch eich lleoliad/lleoliad eich sefydliad (dewiswch bob un sy'n berthnasol):

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon

## Trosolwg o'r Rheoliadau Bwyd Perthnasol a'r Gwahaniaethau Cenedlaethol

Mae bwyd yn faes polisi datganoledig, a bydd unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn dilyn ymgynghoriad yn cael eu rhoi ar waith drwy offerynnau statudol ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi trosolwg o'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y ddogfen hon. Ar hyn o bryd mae rhai gwahaniaethau yn y ffordd y caiff rheoliadau bwyd eu cymhwyso ledled y DU. Er mwyn osgoi ailadrodd y gwahaniaethau hyn drwy gydol y ddogfen hon, bydd y byrfoddau mewn print trwm yn cael eu defnyddio i gwmpasu'r ffordd y caiff y rheolau eu cymhwyso ledled y DU. Lle bo angen, bydd gwahaniaethau rhwng sut caiff y rheolau eu cymhwyso ar draws y DU yn cael eu hesbonio.

**Rheoliadau Bara a Blawd:** Mae Rheoliadau Bara a Blawd 1998 a Rheoliadau Bara a Blawd (Gogledd Iwerddon) 1998 yn gosod rheolau penodol ar safonau labelu a chyfansoddiad bara a blawd ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno.

**Rheoliad 1925/2006:** Mae hwn yn gosod rheolau ar gyfer ychwanegu fitaminau, mwynau a sylweddau penodol eraill at fwyd. Ym Mhrydain Fawr, mae'r Rheoliad hwn wedi'i ddargadw mewn cyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y Ddeddf Ymadael), ac wedi'i ddiwygio gan y ddeddfwriaeth berthnasol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Rheoliad yr UE yn gymwys o dan delerau cyfredol Protocol Gogledd Iwerddon.

**Rheoliad 1333/2008:** Mae hwn yn gosod y rheolau ar gyfer ychwanegion bwyd: diffiniadau, amodau defnyddio, labelu a gweithdrefnau. Ym Mhrydain Fawr, mae'r Rheoliad hwn wedi'i ddargadw mewn cyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y Ddeddf Ymadael), ac wedi'i ddiwygio gan y ddeddfwriaeth

berthnasol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Rheoliad yr UE yn gymwys o dan delerau cyfredol Protocol Gogledd Iwerddon.

**Rheoliad 231/2012:** Mae hwn yn gosod manylebau ar gyfer ychwanegion bwyd a restrir yn Atodiadau 2 a 3 i Reoliad 1333/2008. Ym Mhrydain Fawr, mae'r Rheoliad hwn wedi'i ddargadw mewn cyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y Ddeddf Ymadael), ac wedi'i ddiwygio gan y ddeddfwriaeth berthnasol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Rheoliad yr UE yn gymwys o dan delerau cyfredol Protocol Gogledd Iwerddon.

**Rheoliad 1169/2011:** Mae hwn yn gosod rheolau ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr. Ym Mhrydain Fawr, mae'r Rheoliad hwn wedi'i ddargadw mewn cyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y Ddeddf Ymadael), ac wedi'i ddiwygio gan y ddeddfwriaeth berthnasol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Rheoliad yr UE yn gymwys o dan delerau cyfredol Protocol Gogledd Iwerddon.

**Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014:** Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (Cymru); Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (Lloegr); Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (Gogledd Iwerddon); Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (Yr Alban) yn darparu darpariaethau gorfodi ar gyfer rheolau ar roi gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn y drefn honno.

## Rheoliadau Bara a Blawd

Mae'r Rheoliadau Bara a Blawd yn gosod rheolau labelu a chyfansoddiad penodol ar gyfer bara a blawd yn y Deyrnas Unedig. O dan y rheolau hyn mae'n ofynnol i flawd gwenith nad yw'n gyflawn gynnwys ychwanegu meintiau penodol o galsiwm carbonad, haearn, thiamin a niasin. Mae'r rheoliadau hefyd yn gosod manylebau cemegol ar gyfer y maethynnau ychwanegol hynny.

Caiff nifer o achosion penodol dros eithrio eu nodi yn y rheoliadau yn ymwneud ag ychwanegu maethynnau ar gyfer blawd gwenith cyflawn, blawd codi a blawd gwenith brag. Ni all gweithgynhyrchwyr a mewforwyr fewnforio neu werthu blawd ar farchnad y DU nad yw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Bara a Blawd, oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer wafferi cymun, matzos, glwten, startsh neu unrhyw baratoad crynodedig sy'n helpu i gyfnerthu blawd. O dan delerau cyfredol Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon, mae cydnabyddiaeth gilyddol yn parhau i fod yn gymwys i flawd sy'n cael ei fewnforio o aelod-wladwriaethau'r UE i Ogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu nad yw blawd a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE i Ogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i ofynion y Rheoliadau Bara a Blawd.

Mae llawer o'r rheolau gwreiddiol ar ychwanegion a sylweddau trin blawd y cyfeiriwyd atynt yn y Rheoliadau Bara a Blawd wedi'u dirymu a'u disodli gan ddeddfwriaeth arall sy'n

gymwys i fwyd yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae defnyddio unrhyw sylwedd cannu (*bleaching*) wrth baratoi bara a blawd yn dal i gael ei wahardd yn y rheoliadau. Mae'r Rheoliadau Bara a Blawd hefyd yn diffinio termau fel 'gwenith cyflawn' a 'blawd codi'. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod bara sy'n cael ei hysbysebu fel: "gwenith cyflawn" yn cynnwys 100% o flawd gwenith cyflawn; a bod o leiaf 10% o hedyn gwenith wedi'i brosesu wedi'i ychwanegu at fara "hedyn gwenith".

Cyflwynwyd mesurau deddfwriaethol yn gorchymyn ychwanegu fitaminau a mwynau at flawd yn ystod y 1940au a'r 1950au i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diffyg maeth ymhlith y cyhoedd. Yn y 1940au, cyflwynwyd y gofyniad i ychwanegu calsiwm fel modd o ddarparu mwy o galsiwm fel rhan o ddeietau pobl ar adeg pan oedd cynnyrch llaeth (sef ffynhonnell fawr o galsiwm) yn gyfyngedig. O 1940 hyd at ddiwedd dogni bwyd ym Mhrydain Fawr ym 1954, roedd deddfwriaeth yn gorfodi melino blawd gan echdynnu hyd at 80% neu uwch, er mwyn manteisio i'r eithaf ar werth maethol y grawn gwenith. Er enghraifft, dylid defnyddio 80% o'r grawn i wneud blawd.<sup>3</sup> Ym 1953, codwyd rheolaethau ar felino blawd gwyn, a gellid gwneud bara o flawd â chyfradd o oddeutu 70% unwaith eto ac ystyriwyd bod angen adfer y maethynnau a dynnwyd trwy ddulliau melino er mwyn cynnal gwerth maethol prif fwyd.

Calsiwm yw'r mwyn y ceir y mwyaf ohono yn y corff dynol. Mae'n bwysig ar gyfer ystod o swyddogaethau'r corff gan gynnwys cyfangu cyhyrau, swyddogaethau'r nerfau ac ar gyfer gweithgarwch nifer o ensymau. Mae'n elfen allweddol o esgyrn a dannedd. Mae diffyg calsiwm yn gysylltiedig â chyflyrau'r esgyrn fel y llechau, osteomalacia ac osteoporosis.

Mae haearn yn rhan o haemoglobin (mewn celloedd gwaed coch) ac mae'n hanfodol ar gyfer cludo ocsigen trwy'r corff. Mae haearn hefyd yn rhan o nifer o ensymau sy'n ymwneud ag ystod o brosesau metabolidd y corff. Gall diffyg haearn cynyddol arwain at anemia diffyg haearn.

Mae niasin yn ffactor pwysig er mwyn manteisio ar ynni bwyd; mae diffyg niasin yn anghyffredin yn y DU.

Mae thiamin yn angenrheidiol ar gyfer rhyddhau egni o garbohydradau; mae diffyg thiamin yn anghyffredin yn y DU.

Yn 2013, [ymgyngorodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig \(DEFRA\), ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), ynghylch a ddylid dileu'r gofynion cyfnerthu a orfodir gan y Rheoliadau Bara a Blawd er mwyn lleihau'r baich rheoleiddiol ar fusnesau. Roedd hyn yn ystyried asesiad [y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth \(SACN\)](#) o

---

<sup>3</sup> Mae echdynnu yn cyfeirio at faint o flawd a wneir fel canran o gyfanswm y gwenith wedi'i falu. Er enghraifft, mae blawd gwenith cyflawn yn defnyddio'r holl wenith sy'n golygu y dylai'r gyfradd echdynnu fod yn 100%.

oblygiadau posib cael gwared ar y gofyniad i ychwanegu maethynnau at flawd gwenith nad yw'n gyflawn. Daeth SACN i'r casgliad bod yr achos cryfaf dros barhau i orfodi ychwanegu calsiwm at flawd gwenith nad yw'n gyflawn, wedi'i ddilyn gan haearn.<sup>4</sup> Canfu'r adroddiad dystiolaeth y byddai cael gwared ar y gofyniad i gyfnerthu â chalsiwm yn cynyddu'r gyfran o ddefnyddwyr yn y DU sy'n bwyta llai na'r lefel a argymhellir o'r maethyn isaf (LRNI), a'r risg gyfatebol o lefelau annigonol o galsiwm ymhlith y boblogaeth, yn enwedig ar gyfer menywod a grwpiau incwm isel. Mae hyn yn awgrymu risg uwch o ddiffyg calsiwm sydd wedi bod yn gysylltiedig ag iechyd esgyrn gwael ac o ganlyniad, torasgwrn osteoporotig. Canfu'r adroddiad hefyd y byddai cael gwared ar y gofyniad presennol i ychwanegu haearn at flawd gwenith (ac eithrio gwenith cyflawn) yn lleihau faint o haearn y mae'r boblogaeth yn ei fwyta, ac yn cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n bwyta llai na'r LRNI. Mae achosion o ddiffyg clinigol o niasin a thiamin yn brin, fodd bynnag, gallai osgoi un achos o ddiffyg arbed mwy na'r gost ychwanegol o orfod cyfnerthu.<sup>5</sup>

Yn gyffredinol, dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad fod y rhan fwyaf o weithwyr iechyd proffesiynol yn gwrthwynebu cael gwared ar y rheolau ar gyfnerthu blawd, a hynny ar y sail y byddai'n cael effaith negyddol ar iechyd y cyhoedd. Ar ôl pwyso a mesur, roedd y diwydiant yn ymddangos yn fodlon ar y gofynion presennol, ac roedd y grwpiau o ddefnyddwyr a ymatebodd yn teimlo bod parhau i'w gwneud yn orfodol cyfnerthu blawd â'r pedwar maetholyn yn arwain at fudd sylweddol i iechyd y cyhoedd. [Cyhoeddodd y Llywodraeth ei phenderfyniad ym mis Awst 2013 a ddaeth i'r casgliad y dylid cadw'r Rheoliadau fel y maent.](#)

Cyn ymadael â'r UE, roedd blawd a fewnforiwyd o aelod-wladwriaethau eraill yr UE/AEE wedi'i eithrio o'r rheoliadau. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod nwyddau'n gallu symud yn rhydd o fewn marchnad sengl yr UE. Daeth newidiadau a wnaed yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE â'r trefniadau cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer blawd a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE/AEE i Brydain Fawr i ben. Mae hyn yn golygu y bydd angen i flawd gwenith a fewnforiwyd o'r UE/AEE i Brydain Fawr gydymffurfio â gofynion cyfnerthu'r Rheoliadau Bara a Blawd o fis Hydref 2022 ymlaen. O dan delerau Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon, mae cydnabyddiaeth gilyddol yn parhau i fod yn gymwys i flawd sy'n cael ei fewnforio o aelod-wladwriaethau'r UE i Ogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu nad yw blawd a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE i Ogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i ofynion y Rheoliadau Bara a Blawd. Ar yr un pryd, gwnaed newidiadau i ganiatáu gwerthu blawd heb ei gyfnerthu i'w allforio neu ei ddefnyddio mewn cynnyrch a oedd i'w allforio (yn yr arfaeth yng Ngogledd Iwerddon).

---

<sup>4</sup> Pwyllgor Cyngori Gwyddonol ar Faeth: Goblygiadau Maethol Diddymu Rheoliadau Bara a Blawd y DU 2012

<sup>5</sup> Rheoliadau Bara a Blawd 1998: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac Ymateb y Llywodraeth 2013

## Lefel Ofynnol y Maethynnau a Ychwanegir at Flawd

Mae'r Rheoliadau Bara a Blawd yn gosod lefelau gofynnol ar gyfer presenoldeb maetholion a ychwanegir at flawd fesul pob 100g o flawd (Calsiwm carbonad – 235-390mg, haearn – 1.65mg, asid nicotinig neu nicotinamid – 1.60mg a thiamin – 0.24mg). Gosodwyd y rhain ar lefelau a oedd yn adfer maetholion i'r lefelau naturiol a oedd yn bresennol mewn gwenith cyn y broses felino, ac eithrio calsiwm lle'r oedd polisi iechyd cyhoeddus clir i ategu deietau poblogaeth y DU gyda lefel ofynnol o galsiwm trwy gyfnerthu blawd.

Ers cyflwyno'r Rheoliadau Bara a Blawd, mae rheolau cyffredinol ar ychwanegu fitaminau a mwynau at fwydydd wedi'u cyflwyno, ac mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn Rheoliad 1925/2006. Mae'r rheolau hyn yn nodi pan fydd bwydydd yn cael eu cyfnerthu, fod yn rhaid cael "swm sylweddol" o faetholion. Diffinnir hyn ar gyfer pob maethyn ychwanegol yn Rheoliad 1169/2011 fel 15% o'r Lefelau Maeth a Argymhellir (NRV) – mae lefelau maeth a argymhellir yn ganllawiau sefydledig ar gyfer faint o egni a maethynnau a argymhellir bob dydd). Mae hyn yn uwch na'r lefelau gofynnol a nodir yn y Rheoliadau Bara a Blawd ar gyfer tri o'r pedwar maethyn ychwanegol (calsiwm 11.75%, haearn 12% a niasin 10%) fel y dangosir yn nhabl 1 isod.

Mae hyn wedi codi amheuaeth ynghylch y rhyngweithio rhwng y Rheoliadau Bara a Blawd a deddfwriaeth sy'n gorgyffwrdd. Mae rheolau cyffredinol ar ychwanegu fitaminau a mwynau at fwydydd yn Rheoliad 1925/2006 yn gosod lefel ofynnol y maethynnau a ychwanegir at fwyd ar 15% NRV, a hynny er mwyn sicrhau bod budd maethol i ddefnyddwyr. Byddai gosod lefelau gofynnol yn y Rheoliadau Bara a Blawd sy'n gyson â rheolau cyffredinol yn sicrhau bod yr egwyddor hon yr un mor berthnasol i gyfnerthu blawd.

Rydym ar ddeall bod y mwyafrif (dros 90%) o'r diwydiant eisoes wedi dechrau ychwanegu lefelau uwch o faethynnau o gymharu â'r isafswm sy'n ofynnol yn y Rheoliadau Bara a Blawd, a hynny er mwyn cael un llinell gynhyrchu ar gyfer blawd y gellir ei marchnata ar farchnadoedd domestig (Prydain Fawr) ac allforio (rhaid i lefel y maethynnau fod o leiaf 15% wrth allforio i aelod-wladwriaethau'r UE).<sup>6</sup> Mae'r holl flawd gwenith nad yw'n gyflawn a gynhyrchir yn y DU yn cael ei gyfnerthu'n hwyr yn y broses felino ar hyn o bryd gan ddefnyddio sylwedd sydd wedi'i gymysgu ymlaen llaw. Profwyd mai hwn yw'r dull mwyaf syml o gyfnerthu. Mae costau dangosol o ran defnyddio sylwedd sydd wedi'i gymysgu ymlaen llaw sy'n cydymffurfio â'r lefelau uwch yn cael eu cymharu â defnyddio'r sylwedd

---

<sup>6</sup> Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar ffigurau gwerthu'r fitaminau a mwynau sydd wedi'u cymysgu ymlaen llaw a ychwanegir at flawd 2020-21.

sydd wedi'i gymysgu ymlaen llaw sy'n cydymffurfio â'r lefelau gofynnol o faethynnau fel y nodir yn y Rheoliadau Bara a Blawd yn Nhabl 2 isod.

Tabl 1: Gofynion y Rheoliadau Bara a Blawd o ran cyfansoddiad o gymharu â Lefelau Maeth a Argymhellir (NRV).

Maethyn	Lefelau Gofynnol Cyfredol fesul 100g o Flawd yn y Rheoliadau Bara a Blawd	NRV fesul 100g	15% o'r NRV priodol fesul 100g	Ffurf wedi'i hychwanegu at flawd
<b>Calsiwm*</b>	235-390mg (calsiwm carbonad)  Neu'r hyn sy'n cyfateb i94-156mg (calsiwm)  Fel canran o NRV (fesul 100g): 11.75%-19.5%	2000mg (calsiwm carbonad)  800mg (calsiwm)	300mg (calsiwm carbonad)  (120mg o galsiwm)	Calsiwm carbonad
<b>Haearn</b>	≥1.65mg  Fel canran o NRV (fesul 100g): 12%	14mg	2.1mg	Unrhyw un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt: sitrad amoniwm fferrig – sitrad amoniwm fferrig gwyrdd – sylffad fferrus – sylffad fferrus sych – powdr haearn
<b>Thiamin*</b>	≥ 0.24mg (thiamin hydroclorid)	1.26mg (thiamin hydroclorid – wedi'i dalgrynnu i 2 dp)	0.165mg	Thiamin Hydroclorid



	Neu'r hyn sy'n cyfateb i 0.21mg (thiamin)	1.1mg (thiamin)		
	Fel canran o NRV (fesul 100g): 19%			
<b>Niasin</b>	≥ 1.60mg	16mg	2.40mg	Asid nicotinig neu nicotinamid
	Fel canran o NRV (fesul 100g): 10%			

Tabl 2: Costau dangosol maethynnau a ychwanegir at flawd (fesul tunnell o flawd)<sup>7</sup>

Cost cynnyrch sydd wedi'i gymysgu ymlaen llaw sy'n cydymffurfio â'r lefelau a nodir yn y Rheoliadau Bara a Blawd (fesul tunnell o flawd)	Cost cynnyrch sydd wedi'i gymysgu ymlaen llaw gyda lefelau calsiwm, haearn a niasin wedi'u codi i 15% NRV (fesul tunnell o flawd)
<b>£1.20</b>	£1.30-£1.36

## Manyleb Calsiwm Carbonad

Mae'r Rheoliadau Bara a Blawd yn nodi meini prawf penodol o ran cyfansoddiad y mae'n rhaid i'r maethynnau ychwanegol eu bodloni. Mae'r meini prawf ar gyfer calsiwm carbonad yn y Rheoliadau Bara a Blawd yn wahanol i'r fanyleb a nodir ar gyfer calsiwm carbonad (E170) yn Rheoliad 231/2012 ar ychwanegion bwyd.

Yn flaenorol, roedd cyflenwi calsiwm a ddefnyddiwyd i gyfnerthu blawd y DU yn dod o un chwarel yn Steeple Morden yn Lloegr. Roedd yn bodloni'r fanyleb (cyfferiaeth (*pharmacopeia*)) yn y Rheoliadau Bara a Blawd, ond nid oedd yn bodloni meini prawf Rheoliad 231/2012 (E170) mewn perthynas â phurdeb ar ddau newidyn (mater asid anhoddadwy a fflworid). Mae cyfansoddiad calsiwm carbonad yn cael ei bennu gan y cyfansoddiad daearegol naturiol, ac felly nid yw'n amrywio ac mae'n anodd iawn ei newid. Nid yw'r chwarel sy'n cynhyrchu'r calsiwm carbonad yn Lloegr bellach yn cynhyrchu

<sup>7</sup> Cyswllt yn y diwydiant.



calsiwm carbonad i'w fwyta gan bobl. Rydym ar ddeall yw bod y diwydiant i gyd bellach wedi dechrau defnyddio calsiwm sy'n cydymffurfio â Rheoliad 231/2012 ar gyfer allforion a'r farchnad ddomestig.

Tabl 3: Meini Prawf ar gyfer Calsiwm Carbonad

	Asid annahoddadwy	Fflworid
<b>Manyleb Rheoliad 231/2012 mewn perthynas ag E170</b>	0.2%	50 mg/kg
<b>Ffynhonnell Steeple Morden</b>	0.25%	100 mg/kg

Er ei bod yn dal yn bosib cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer calsiwm carbonad yn y Rheoliadau Bara a Blawd a Rheoliad 231/2012, rydym yn cydnabod y byddai cysondeb o ran rheoliadau safonau bwyd sy'n gorgyffwrdd yn helpu i wella'r ddeddfwriaeth a'r fframwaith rheoleiddio.

## Crynodeb o gynigion polisi

### Lefel Ofynnol y Maethynnau a Ychwanegir at Flawd

#### Llinell sylfaen – Gwneud dim byd

Byddai'r Rheoliadau Bara a Blawd yn cadw'r lefelau gofynnol presennol ar gyfer calsiwm, haearn, thiamin a niasin, gan barhau i fod yn groes i ddeddfwriaeth sy'n gorgyffwrdd ynghylch lefel isaf y maethynnau y dylid eu hychwanegu at fwydydd. Bydd angen cymryd camau pellach i roi eglurhad ar sut mae'r rheolau'n rhyngweithio at ddibenion gweithredu.

#### Newid arfaethedig – Codi'r lefel ofynnol o faethynnau sy'n bresennol mewn blawd

Mae rhanddeiliaid y diwydiant wedi dweud y byddent yn ei groesawu codi'r lefelau gofynnol o faethynnau ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r gofynion sy'n ymwneud ag ychwanegu fitaminau a mwynau at fwyd i 15% o'r NRV fesul 100g fel isafswm. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu symud y lefel ofynnol o haearn sy'n bresennol mewn blawd o 1.65mg i 2.1mg, niasin o 1.6mg i 2.4mg a chalsiwm carbonad o 235-390mg i 300-390mg fesul 100g. Byddai'r isafswm o thiamin sydd ei angen mewn blawd yn aros yr un fath gan fod hyn yn uwch na 15% o'r lefelau maeth a argymhellir ar hyn o bryd.

Byddai'r opsiwn hwn yn diweddarau'r rheoliadau yn unol â'r rheolau ehangach ar gyfer cyfnerthu bwydydd i gael buddion maethol. Byddai gwneud y diwygiad hwn yn adlewyrchu newidiadau sydd eisoes wedi'u gwneud yn wirfoddol gan y mwyafrif yn y diwydiant, gan sicrhau chwarae teg yn y farchnad. Byddai mwy o eglurder ar ofynion rheoleiddiol yn hwyluso cydymffurfiaeth ac yn cynorthwyo gorfodi. Byddai angen i felinwyr sy'n cyfnerthu ar lefelau is ar hyn o bryd (sy'n cyfrif am frasmcan o 9% o flawd gwenith nad yw'n gyflawn) newid i gynnyrch sydd wedi'i gymysgu ymlaen llaw gyda lefelau uwch o faethynnau.

Yn wahanol i'r maethynnau ychwanegol eraill, mae gan galsiwm carbonad lefel uchaf yn ogystal â lefel ofynnol y darperir ar ei chyfer yn y rheoliadau. Yn bennaf, mae hyn er mwyn diogelu dilysrwydd brawd i osgoi'r defnydd posib o galsiwm carbonad mewn symiau gormodol fel "llenwad". Felly, nid ydym yn cynnig newid y lefel uchaf hon er mwyn diogelu safonau bwyd i ddefnyddwyr. Mae rhai rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi codi pryderon y bydd yn anodd cydymffurfio â'r ystod newydd sy'n fwy cul gan fod amrywiaeth eang o lefelau calsiwm i'w cael mewn brawd yn naturiol cyn ychwanegu'r cynnyrch sydd wedi'i gymysgu ymlaen llaw a allai arwain at amrywiad mewn lefelau. Mae'r rheoliadau'n pennu'r lefelau o galsiwm carbonad y mae'n rhaid iddynt fod mewn brawd yn hytrach na'r lefelau o galsiwm y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol. Gan na fyddai lefelau naturiol calsiwm i'w cael ar ffurf calsiwm carbonad, ni ddylai hyn effeithio ar gydymffurfiaeth. Ceir profion sy'n gallu mesur lefel calsiwm carbonad yn hytrach na lefelau calsiwm, a byddwn yn darparu canllawiau wedi'u diweddarau i egluro hyn at ddibenion gorfodi ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau rheoleiddiol a gyflwynir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau'n nodi y bydd brawd gwenith cyflawn yn cynnwys o leiaf y lefelau gofynnol o haearn, thiamin a niasin yn naturiol (haearn – 1.65mg, niasin – 1.60mg a thiamin – 0.24mg) fesul 100g. Mae hyn yn gysylltiedig â chyfansoddiad brawd gwenith cyflawn sy'n cael ei wneud gan ddefnyddio'r grawn cyflawn o wenith ac felly, dylai brawd gwenith cyflawn gadw gwerth maethol y gwenith a ddefnyddir. Mae rhai rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi codi pryderon ynghylch y geiriad presennol, gan fod nodweddion maethol gwenith yn agored i amrywioldeb naturiol, a gall ffactorau allanol fel yr hinsawdd effeithio arnynt. Mae'r ffordd y mae'r rheoliadau wedi'u geirio ar hyn o bryd yn gwahardd ychwanegu maethynnau i fodloni'r lefelau gofynnol, felly gallai hyn achosi diffyg cydymffurfiaeth y tu hwnt i reolaeth melinwyr brawd. Felly, efallai y bydd angen mireinio'r gofyniad hwn ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r lefelau ar gyfer brawd gwenith nad yw'n gyflawn.

Byddai Rhaglen Dreigl yr Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth (NDNS) yn cael ei defnyddio i fonitro effaith y polisi hwn. Mae Rhaglen Dreigl yr NDNS yn arolwg trawstoriadol parhaus o ddeiet a statws maethol poblogaeth y DU sydd wedi cael ei gynnal ers 2008, yn cynnwys oedolion a phlant dros 18 mis sy'n byw mewn cartrefi preifat. Mae'n darparu gwybodaeth fanwl, feintiol am faint o fwyd a maethynnau a fwyteir, statws maethol, a nodweddion cysylltiedig ymhlith y boblogaeth gyffredinol yn ôl oedran a rhyw. Mae faint o haearn, calsiwm, niasin, ac ychwanegion bwyd a fwyteir fel rhan o ddeiet yn cael ei gofnodi a'i adrodd trwy'r dull casglu data deietegol.

## Manyleb Calsiwm Carbonad

### Llinell sylfaen – Gwneud dim byd

Byddai melinwyr yn dal i allu defnyddio calsiwm carbonad sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y Rheoliadau Bara a Blawd a Rheoliad 231/2012 i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Fodd bynnag, byddai'r Rheoliadau Bara a Blawd yn cadw manyleb calsiwm sy'n groes i reoliadau sy'n gorgyffwrdd. Mae hyn yn cymhlethu cydymffurfiaeth y diwydiant, ac yn ei gwneud yn anoddach fyth gorfodi cyfraith safonau bwyd yn gyson.

### Newid arfaethedig – Dileu'r meini prawf ar gyfer calsiwm carbonad o'r rheoliadau

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu dileu'r meini prawf ar gyfansoddiad calsiwm carbonad a ychwanegir at flawd o'r Rheoliadau Bara a Blawd. Byddai angen ychwanegu calsiwm carbonad at flawd i fodloni'r fanyleb a nodir yn Rheoliad 231/2012 sy'n gosod y rheolau ar y defnydd ehangach o ychwanegion mewn bwydydd. Byddai'r diwygiad yn cywiro'r anghysondeb rhwng y Rheoliadau Bara a Blawd a deddfwriaeth sy'n gorgyffwrdd, gan roi eglurder i fusnesau, a diweddarau'r Rheoliadau Bara a Blawd gyda meini prawf sy'n gyson â'r defnydd ehangach o calsiwm carbonad mewn bwydydd eraill. Mae'r diwydiant wedi ein gwneud yn ymwybodol bod calsiwm carbonad sy'n cael ei ychwanegu at flawd eisoes yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly ni fyddem yn disgwyl unrhyw gostau sylweddol ychwanegol i'r diwydiant o ganlyniad i'r newid hwn. Byddai'r opsiwn hwn yn diogelu rhag yr angen am newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol pe bai'r meini prawf yn Rheoliad 231/2012 yn cael eu diweddarau.

## Cwestiynau

Mae asesiad o gost a manteision pob un o'r opsiynau posib wedi'i ddarparu yn y cam ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r Asesiad Effaith. Mae crynodeb byr, sy'n dadansoddi cost a budd y newidiadau arfaethedig yn erbyn yr opsiynau pan na wneir unrhyw newidiadau ar gyfer y lefel ofynnol o faethynnau a ychwanegir at flawd a'r fanyleb calsiwm carbonad, i'w weld yn y tabl isod.

Cynnig Polisi	Defnyddwyr	Diwydiant	Llywodraeth/Awdurdodau Gorfodi Lleol
<p><b>Codi'r lefel isaf o faethynnau a ychwanegir at flawd yn unol â rheolau ehangach ar fwydydd cyfnerthedig, a dileu'r meini prawf ar gyfer calsiwm carbonad o'r Rheoliadau Bara a Blawd</b></p>	<p><b>Costau:</b></p> <p>Ni ragwelir unrhyw newid sylweddol mewn prisiau i ddefnyddwyr yn sgil yr ymyriad hwn.</p> <p><b>Buddion:</b></p> <p>Cysondeb â rheolau ychwanegion bwyd ehangach a rheolau fitaminau a mwynau.</p>	<p><b>Costau:</b></p> <p>Costau ymgyfarwyddo i felinwyr o ganlyniad i'r rheoliadau sy'n newid. Amcangyfrif o'r holl gostau ledled y sector: £4,600</p> <p>Mân gynnydd mewn costau cyfnerthu ar gyfer melinwyr nad oeddent eisoes yn cyfnerthu blawd i'r lefelau sy'n ofynnol yn unol â Rheoliad 1925/2006</p> <p>Gellir ei gwneud yn anoddach i gynhyrchwyr calsiwm y DU ddarparu calsiwm carbonad ar gyfer cyfnerthu yn y dyfodol.</p> <p><b>Buddion:</b></p> <p>Mwy o eglurder rheoleiddio i randdeiliaid y diwydiant.</p>	<p><b>Costau:</b></p> <p>Costau ymgyfarwyddo ar gyfer awdurdodau gorfodi a chydymffurfio oherwydd y rheoliadau sy'n newid. Amcangyfrif o'r holl gostau ar gyfer pob un o'r 408 o awdurdodau lleol: £19,000</p> <p><b>Buddion:</b></p> <p>Eglurder rheoleiddio gwych wedi'i ddarparu i awdurdodau gorfodi'r gyfraith.</p>

A yw'r crynodeb uchod yn cynrychioli'n gywir y prif gostau i'r diwydiant, defnyddwyr a'r llywodraeth/awdurdodau gorfodi (gweler adran 4.5 o'r Aseiad Effaith cysylltiedig am ddadansoddiad manylach o'r costau/buddion a'r cyfrifiadau t. 34-37)?

	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod/dim sylw
Mae costau a buddion y newidiadau polisi arfaethedig i'r <u>diwydiant</u> yn cael eu cynrychioli'n gywir				
Mae costau a buddion y newidiadau polisi arfaethedig i <u>ddefnyddwyr</u> yn cael eu cynrychioli'n gywir				
Mae costau a buddion y newidiadau polisi arfaethedig i'r <u>llywodraeth/awdurdodau gorfodi</u> yn cael eu cynrychioli'n gywir				

6a. Nodwch ba gostau neu fuddion sydd heb eu cynrychioli'n gywir yn eich barn chi, a rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn.

7. Nodwch eich safbwyntiau ar yr opsiynau canlynol (dewiswch un opsiwn fesul cynnig):

	Ydw, rwy'n cefnogi hyn	Nac ydw, nid wyf yn cefnogi hyn	Dydw i ddim yn gwybod/dim barn
Gwneud dim byd			
Codi'r lefel isaf o faethynnau a ychwanegir at flawd yn unol â rheolau ehangach ar fwydydd cyfnerthedig			
Dileu'r meini prawf ar gyfer calsiwm carbonad o'r Rheoliadau Bara a Blawd			

7a. Os nad ydych yn cefnogi unrhyw elfen o'r cynnig (i godi'r lefel ofynnol o faethynnau a ychwanegir at flawd yn unol â rheolau ehangach ar fwydydd cyfnerthedig a dileu'r meini prawf ar gyfer calsiwm carbonad o'r Rheoliadau Bara a Blawd), esboniwch pam a rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn.

(Ar gyfer melinwyr a'r rheiny sy'n cyflenwi cynhyrchion wedi'u cymysgu ymlaen llaw)  
Rydym yn deall y gall fod yn anodd dosbarthu maethynnau ychwanegol yn fanwl gywir. Os cynyddir y lefel ofynnol ar gyfer calsiwm carbonad sy'n bresennol mewn blawd, byddai hyn yn lleihau'r ystod y mae'n rhaid iddo fod yn bresennol mewn blawd i 300mg-390mg fesul 100g. Ar yr amod bod melinwyr yn ychwanegu calsiwm carbonad ar 345mg fesul 100g o flawd, byddai hyn yn caniatáu amrywiad o 15% yn uwch neu'n is i gydymffurfio â'r rheolau.

8 I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod cael lefelau calsiwm carbonad yn gyson o fewn yr ystod arfaethedig fesul 100g o flawd yn realistig? (Dewiswch un ateb)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

9. A ddylid adolygu'r gofyniad i flawd gwenith cyflawn gynnwys 1.65mg o haearn, 1.60mg o niasin a 0.24mg o thiamin (fesul 100g)? (Testun rhydd)

10. Os hoffech ychwanegu unrhyw sylwadau pellach at eich ymatebion i gwestiynau 1-9 uchod, neu unrhyw sylwadau eraill sy'n berthnasol i'r cynigion a drafodwyd, gwnewch hynny yma: (Testun rhydd)

## Asid ffolig

### Cefndir ac ymgynghoriad blaenorol

Yn dilyn [ymgynghoriad cyhoeddus ledled y DU gyfan](#) yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ym mis Medi 2021 y byddent yn [bwrw ymlaen â gorfodi cyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn ac yn deddfu ar y sail hon](#). Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â buddion diogelu iechyd y cyhoedd yn ogystal ag ystyried unrhyw ganlyniadau negyddol ar grwpiau poblogaeth a'r effaith ar fusnesau a masnach. Nod y cynnig oedd sicrhau bod y polisi yn gymesur, yn effeithiol, ac yn y pen draw, fod modd ei orfodi.

Dangoswyd bod cymryd asid ffolig yn y cyfnod cyn cenhedlu a hyd at 12<sup>fed</sup> wythnos y beichiogrwydd yn lleihau'r risg o ddiffyg ar y tiwb nerfol (NTD) sy'n effeithio ar fenywod beichiog a'u beichiogrwydd.<sup>8</sup> Mae NTDs yn codi yn ystod wythnosau cyntaf beichiogrwydd, yn aml cyn i fenyw wybod ei bod yn feichiog. Gall NTDs gael effaith sylweddol ar ddisgwyliad oes ac ansawdd bywyd, ac mae NTD yn effeithio ar oddeutu 1000 o menywod feichiog a'u beichiogrwydd bob blwyddyn yn y DU.<sup>9</sup>

Felly, cynghorir pob menyw a allai feichiogi i gymryd atchwanegiad asid ffolig 400-microgram bob dydd cyn cenhedlu a hyd at 12<sup>fed</sup> wythnos y beichiogrwydd. Fodd bynnag, gan fod llawer o fenywod yn dod yn feichiog heb gynllunio neu efallai na fydd menywod yn gwybod eu bod yn feichiog yn ystod wythnosau cyntaf beichiogrwydd, nid yw llawer o fenywod yn dilyn yr argymhelliad hwn neu'n methu â'i ddilyn. Mae rhagor o fanylion am fenywod beichiog y mae NTD yn effeithio ar eu beichiogrwydd wedi'u darparu yn yr [ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynnig ar gyfer polisi cyfnerthu asid ffolig](#).

Yn [2017](#), cadarnhaodd y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN)<sup>10</sup> fod ei argymhellion blaenorol ar asid ffolig ([2006](#) a [2009](#)) yn aros yr un fath, ac argymhellodd gyfnerthu asid ffolig gorfodol i wella statws ffolad y menywod sydd fwyaf tebygol o fod mewn perygl o gael beichiogrwydd y mae NTD yn effeithio arno. Argymhellodd SACN y dylid sicrhau nad yw atgyfnerthu gorfodol yn arwain at gynnydd yng nghyfran y boblogaeth sy'n bwyta mwy o asid ffolig na'r Lefel a Argymhellir.

Gan fod trafodaeth ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â chyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar yr agweddau technegol ar weithredu'r polisi hwn.

---

<sup>8</sup> Mae NTDs yn namau geni mawr yn yr ymennydd, asgwrn cefn neu linyr asgwrn cefn y ffetws, a'r rhai mwyaf cyffredin yw spina bifida ac anenseffali.

<sup>9</sup> [Cyfnerthu blawd ag asid ffolig: asesiad effaith \(Saesneg yn unig\) \(publishing.service.gov.uk\)](#)

<sup>10</sup> Mae SACN yn cynghori ar faeth a materion iechyd cysylltiedig. Mae'n cynghori'r Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau (OHID) a sefydliadau eraill llywodraeth y DU.

# Crynodeb o'r cynigion polisi

## Lefel

**Y cynnig yw cyflwyno i'r Rheoliadau Bara a Blawd y gofyniad cyfreithiol i ychwanegu 250 microgram o asid ffolig fesul 100g o flawd gwenith nad yw'n gyflawn.**

Pennwyd y lefel arfaethedig hon yn dilyn gwaith modelu gan Safonau Bwyd yr Alban, [Modelu stocastig i amcangyfrif effaith bosib cyfnerthu blawd ag asid ffolig yn y DU | Safonau Bwyd yr Alban](#) (2017). Archwiliodd yr ymarfer modelu effaith bosib cyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn ag asid ffolig, ac amcangyfrifodd effeithiolrwydd a diogelwch gwahanol opsiynau ar gyfer lefelau asid ffolig at ddibenion lefelau cymeriant ffolad yn y deiet (gan sicrhau nad oes unrhyw ostyngiad yn y lefelau ffolad cyfartalog presennol, a nad oes nifer y bobl sy'n cymryd gormod o asid ffolig yn cynyddu), a lleihau nifer y menywod beichiog y mae NTD yn effeithio ar eu beichiogrwydd yn y DU. Dylid nodi bod y cyfrifiadau a ddefnyddiwyd yn y gwaith modelu wedi cymhwyso colled o 25% ar gyfartaledd o asid ffolig a ychwanegir at flawd yn ystod y cam cynhyrchu. Mae hyn yn golygu bod yr un effaith wedi'i modelu i'w chael pan **ychwanegir asid ffolig at flawd** ar 250 microgram neu pan fo'n **bresennol** ar 187.5 microgram yn y cynnyrch terfynol.

Mae dewis lefel benodol ar gyfer cyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn (ychwanegu 250 microgram fesul 100g o flawd gwenith nad yw'n gyflawn), yn hytrach nag ystod o werthoedd, yn cefnogi dull safonol o gyfnerthu ar draws y diwydiant ac yn galluogi awdurdodau gorfodi i asesu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth. Mae dewis cyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn yn unig, sydd eisoes yn destun cyfnerthu gorfodol, yn caniatáu elfen o ddewis i ddefnyddwyr gan nad yw blawd gwenith cyflawn a grawn a blawd eraill wedi'u melino, gan gynnwys y rhai sydd 'heb glwten', yn destun cyfnerthu arall ar hyn o bryd yn unol â'r Rheoliadau Bara a Blawd cyfredol.

## Effaith y lefel ar NTDs

Mae gwaith modelu Safonau Bwyd yr Alban yn nodi y byddai disgwyl i gyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn yn orfodol ag asid ffolig leihau nifer yr achosion o bobl â lefelau isel o ffolad, gan arwain at ostyngiad yn nifer y menywod beichiog y mae NTD yn effeithio ar eu beichiogrwydd. Yn ôl y gwaith modelu, byddai ychwanegu 250 microgram o asid ffolig at bob 100g o flawd gwenith nad yw'n gyflawn yn arwain at ostyngiad o 15-22% y flwyddyn yn nifer y NTDs (yn seiliedig ar golled cynhyrchu amcangyfrifedig ar gyfartaledd



o 25%).<sup>11</sup> (Mae modelu Safonau Bwyd yr Alban yn rhoi rhagor o fanylion am y cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i fodelu'r gostyngiad hwn).<sup>12</sup>

## Effaith ar y Lefel a Argymhellir

Gosodir Terfynau Uchaf Goddefadwy (TUL) ar gyfer fitaminau a mwynau ar sail diogelwch. Yn absenoldeb tystiolaeth TUL ar gyfer asid ffolig, gosodwyd Lefel a Argymhellir o 1 miligram (mg) y dydd o asid ffolig atodol gan y [Grŵp Arbenigol ar Fitaminau a Mwynau \(EVM\) yn 2003](#).

Ym mis Chwefror 2019, ailddatganodd [Cemegau mewn Bwyd, Cynhyrchion Defnyddwyr a'r Amgylchedd \(COT\)](#)<sup>13</sup> [y Lefel a Argymhellir ar gyfer asid ffolig atodol o 1 mg/dydd](#).

Roedd yr asesiad hwn yn dod ar ôl ailystyried y dystiolaeth ar ddiogelwch asid ffolig (gan ystyried tystiolaeth bellach sydd ar gael ers adroddiad EVM yn 2003), ar y sail y gallai lefelau asid ffolig uwchlaw'r lefel hon guddio presenoldeb anemia aflesol a achosir gan ddiffyg fitamin B12. Gall anemia aflesol arwain at niwed cynyddol i'r system nerfol.

## Effaith ar Gostau

Ystyrir y bydd y newid arfaethedig yn codi cost o oddeutu £6.5m i'r diwydiant o ran cyrchu ac ychwanegu asid ffolig at flawd, £4,600 ar gyfer y diwydiant a £19,000 ar gyfer gorfodi wrth ailymgyfarwyddo â deddfwriaeth, ynghyd â chostau ail-labelu untro ar gyfer cynhyrchion wedi'u gwneud o flawd gan fod y ddeddfwriaeth sy'n pennu'r gofynion ar labelu bwyd (Rheoliad 1169/2011) yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion cyfnerthedig

---

<sup>11</sup> Mae colled amcangyfrifedig o 25% yn ystod y cam cynhyrchu'n arwain at gynnwys 187 microgram o asid ffolig fesul 100g o flawd gwenith nad yw'n gyflawn.

<sup>12</sup> Mae gostyngiad yn nifer y NTDs o 15-22% y flwyddyn yn dibynnu ar yr hafaliadau a ragwelir sy'n cael eu defnyddio fel y dangosir yng ngwaith modelu Safonau Bwyd yr Alban. Ar 300 microgram, mae'r risg yn cael ei lleihau 17-25%, ar 350 microgram, mae'r risg yn cael ei lleihau 19-28% ac ar 450 microgram, mae'r risg yn cael ei lleihau 23-32%. Fodd bynnag, mae'r modelu'n dangos y byddai hyn yn cynyddu'r nifer y bobl yramcangyfrifir eu bod yn mynd dros y lefel a argymhellir gan 0.8%, 1.1% ac 1.8% yn y drefn honno.

<sup>13</sup> Mae COT yn bwyllgor sy'n cynnwys arbenigwyr annibynnol sy'n rhoi cyngor i'r ASB, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Adrannau ac Asiantaethau eraill y Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â gwenwyndra cemegau mewn bwyd, cynhyrchion defnyddwyr a'r amgylchedd.

gael eu dangos yn y rhestr gynhwysion.<sup>14</sup> Y cyfnod gweithredu arfaethedig ar gyfer ychwanegu asid ffolig yw 24 mis, felly rhagwelir y dylid lliniaru'r costau sy'n gysylltiedig ag ail-labelu blawd i gynnwys asid ffolig fel cynnyrch cyfnerthedig fel rhan o'r cylch labelu naturiol (gweler cwestiwn 35 ar y cyfnod pontio). Amcangyfrifir y bydd y gost i fusnesau o ail-labelu blawd yn fach, a bydd yn ymwneud yn bennaf ag ychwanegu asid ffolig at y rhestr o gynhyrchion cyfnerthedig sydd eisoes wedi'u hychwanegu at flawd gwenith nad yw'n gyflawn. Fodd bynnag, mae alinio â'r cylch labelu naturiol yn dibynnu ar bryd y mae'r melinwyr yn dewis ailfformiwleiddio, a faint o rybudd y maent yn ei roi i'w cwsmeriaid ymlaen llaw. Os oes cyfathrebu gwael rhwng melinwyr a chwsmeriaid, efallai y bydd costau ail-labelu i fusnesau nad ydynt yn cyd-fynd â'r cylch labelu naturiol. Cynigir y cyfnod gweithredu o 24 mis i liniaru'r risg hon. Bydd angen i'r diwydiant ail-labelu'r holl gynhyrchion sy'n defnyddio blawd gwenith nad yw'n gyflawn i adlewyrchu cyfansoddiad y blawd newydd yn syth ar ôl i hwn gael ei gyflwyno yn y cynnyrch. Rhoddir rhagor o fanylion am gostau sy'n gysylltiedig ag ail-labelu yn yr asesiad effaith sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn.

Trwy atgyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn yn unig, sydd eisoes wedi'i atgyfnerthu'n orfodol â chalsiwm, haearn, thiamin a niasin, mae'n annhebygol y bydd costau sylweddol wrth nodi pa flawd y mae'n rhaid ei atgyfnerthu. Yn yr un modd, mae'n annhebygol y byddai angen peiriannau newydd ar y diwydiant gan fod modd defnyddio peiriannau presennol sy'n ychwanegu cyfnerthion sydd eisoes yn orfodol er mwyn ychwanegu asid ffolig. Byddai cyflwyno'r gofyniad newydd yn arwain at gostau ychwanegol i'r diwydiant o ran sicrhau ansawdd (hynny yw, profion samplu cynnyrch i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth), gan gynnwys ymgysylltu a chysylltu â gwaith gorfodi gan awdurdodau lleol/cynghorau dosbarth.

Mae diwygio'r ddeddfwriaeth yn gosod costau ar y diwydiant a chydweithwyr gorfodi sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â'r ddeddfwriaeth, hynny yw, cyfanswm costau cyflogau gweithwyr perthnasol o fewn y cwmni neu'r awdurdod gorfodi sy'n cymryd yr amser angenrheidiol i ddeall y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar fusnes.

Gall hyn achosi anghyfleustra posib i ddefnyddwyr nad ydynt yn gallu, nac yn dymuno, bwyta asid ffolig. Mae deddfwriaeth labelu bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio

---

<sup>14</sup>[Rheoliad \(EU\) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar 25 Hydref 2011 ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, gan ddiwygio Rheoliad \(EC\) Rhif 1924/2006 a \(EC\) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd, a diddymu Cyfarwyddeb 87/250/EEC y Comisiwn Ewropeaidd, Cyfarwyddeb 90/496/EEC y Cyngor Ewropeaidd, Cyfarwyddeb 1999/10/EC y Comisiwn Ewropeaidd, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd, Cyfarwyddebau 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad \(EC\) Rhif 608/2004 y Comisiwn Ewropeaidd \(Testun sy'n berthnasol i'r AEE\) \(legislation.gov.uk\)](#)

labelu cywir a gonest wrth werthu bwyd. Mae hyn yn sicrhau y bydd defnyddwyr yn ymwybodol o gynnwys asid ffolig pan fyddant yn prynu blawd gwenith nad yw'n gyflawn a chynhyrchion sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw sy'n cynnwys blawd gwenith nad yw'n gyflawn. Mae'r cynnig hwn yn eithrio blawd gwenith cyflawn a grawn a blawd eraill wedi'u melino gan gynnwys blawd 'heb glwten' rhag gofynion cyfnerthu gorfodol, gan ddarparu opsiwn "heb ei gyfnerthu" i ddefnyddwyr.

Fel y dangoswyd yn yr [asesiad effaith](#) sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad asid ffolig, disgwylir i gost cyfnerthu fesul torth (neu eitem fwyd arall) fod yn isel iawn. Bydd y gost mor isel na ddisgwylir unrhyw newid sylweddol mewn prisiau manwerthu ar gyfer blawd a chynhyrchion sy'n seiliedig ar flawd.

## Rheoli risg

Gan fod asid ffolig eisoes yn cael ei ychwanegu at rai bwydydd trwy gyfnerthu gwirfoddol a'i fwyta trwy atchwanegiadau deietegol yn y DU, gall cyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn wthio rhai defnyddwyr dros y lefel a argymhellir. Fel y dangosir yn yr [asesiad effaith](#) sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad, mae tua 0.4% o'r boblogaeth eisoes dros y lefel a argymhellir ar gyfer asid ffolig. Mae dadansoddiad o ddata NDNS yn dangos bod unigolion sy'n debygol o fynd y tu hwnt i'r lefel a argymhellir ar gyfer asid ffolig yn debygol o fod yn cymryd atchwanegiadau bwyd. Mae'r lefelau cymharol isel o asid ffolig sydd i'w cael yn y rhan fwyaf o fwydydd cyfnerthedig ar hyn o bryd, neu sydd wedi'u modelu mewn blawd fel rhan o'r cynnig polisi hwn, yn dangos y gallai cynyddu lefelau ffolad y mae pobl yn eu bwyta wthio mwy o'r boblogaeth (o 0.4% i 0.6%) dros y lefel a argymhellir (1 miligram y dydd).

Ar ôl ystyried y baich ar fusnesau, yr effaith a ragwelir ar lefelau ffolad sy'n cael eu bwyta a'r amserlen ar gyfer cyflawni'r polisi, cytunwyd yn bragmatig na fydd cyfyngiad ar gyfnerthu bwyd yn wirfoddol i gyd-fynd â gorfodi cyfnerthu ag asid ffolig. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu'n gyson fel rhan o'r gwaith o fonitro a gwerthuso polisi.

Mae pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU yn cefnogi'r argymhelliad i beidio â chyfyngu ar gyfnerthu gwirfoddol ac i gyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn drwy ychwanegu 250 microgram o asid ffolig fesul 100g.

Fel y dangosir gan waith modelu Safonau Bwyd yr Alban, byddai'r lefel arfaethedig ar gyfer ychwanegu 250 microgram o asid ffolig fesul 100g o flawd gwenith nad yw'n gyflawn (sy'n cyfrif am golled amcangyfrifedig ar gyfartaledd o 25% yn ystod y cam cynhyrchu) yn arwain at lai o risg o NTD ar lefel 15-22%, a chynnydd bychan iawn yn nifer y bobl sy'n mynd dros y lefel a argymhellir ar gyfer asid ffolig, o 0.4% i 0.6%. Heb gyfyngiadau ar gyfnerthu gwirfoddol, byddai cyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn yn orfodol ar lefelau uwch na'r 250 microgram arfaethedig o asid ffolig fesul 100g o flawd yn cynyddu nifer y bobl sydd mewn perygl o fynd dros y lefel a argymhellir. Darperir manylion pellach

yn yr [asesiad effaith](#) a [gwaith modelu Safonau Bwyd yr Alban](#) sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad ar y cynnig polisi asid ffolig.

## Monitro

Ar hyn o bryd, bwriedir i unrhyw strategaeth fonitro arfaethedig gynnwys mesurau o effeithiau cadarnhaol a negyddol posib y polisi ar iechyd poblogaeth y DU. Bydd hyn yn gofyn am gasglu data cyn ac ar ôl gweithredu'r polisi, ac mae'n debygol o gynnwys dadansoddiad o ddata ar y canlynol:

- nifer y fenywod y mae NTD yn effeithio ar eu beichiogrwydd
- lefelau ffolad sy'n cael eu bwyta a statws gwaed ymhlith y boblogaeth, er mwyn asesu gwelliannau yn dilyn cyfnerthu ac unrhyw gynnydd yn nifer y bobl sy'n bwyta lefelau uwch na'r hyn a argymhellir
- effeithiau andwyol rhagdybiedig (fel rhai mathau o ganser)

Mae manylion ynghylch sut y bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro wedi'u cynnwys yn yr asesiad effaith sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad hwn.

## Cwestiynau

Mae asesiad o gostau a manteision pob un o'r opsiynau posib wedi'i ddarparu yn y cam ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r asesiad effaith. Mae effeithiau posib ar y diwydiant, awdurdodau lleol a'r gymdeithas ehangach wedi'u nodi. Byddem yn croesawu mewnbwn pellach gan randdeiliaid ar y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau a drafodwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r adran hon o'r ymgynghoriad yn canolbwyntio'n benodol ar weithredu ychwanegu asid ffolig at flawd gwenith nad yw'n gyflawn, felly adlewyrchir hyn yn y cwestiynau isod.

Cynnig Polisi	Defnyddwyr	Diwydiant	Llywodraeth/Awdurdodau Gorfodi Lleol
Gofyniad i ychwanegu 250mcg o asid ffolig fesul 100 gram o flawd gwenith (ac eithrio eithriadau)	Costau:  Dim newidiadau sylweddol i brisiau manwerthu ar gyfer blawd neu gynhyrchion sy'n seiliedig ar flawd.	Costau:  Cost ychwanegol cyfnerthu: £6.5m dros y 10 mlynedd nesaf.  Costau ymgyfarwyddo: £4,600.  Cost ail-labelu hyd at £27.3m – byddem yn	Costau:  Costau ymgyfarwyddo: £19,000.

		disgwyl i'r rhan fwyaf o'r gost hon gael ei chynnwys fel rhan gylch ail-labelu naturiol busnesau.	
--	--	---	--

12. A yw'r crynodeb uchod yn cynrychioli'n gywir y prif gostau gweithredu cyfnerthu asid ffolig ar lefel o 250mcg fesul 100g o flawd ar gyfer 1) y diwydiant, 2) defnyddwyr a 3) awdurdodau'r llywodraeth/gorfodi (gweler adran 4.41 o'r Asesiad Effaith atodol am dadansoddiad manylach o'r costau gweithredu t.30-33)?

	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod/dim sylw
<b>Mae'r costau i'r <u>diwydiant</u> o ran gweithredu cyfnerthu blawd ag asid ffolig yn cael eu cynrychioli'n gywir</b>				
<b>Mae'r costau i <u>ddefnyddwyr</u> o ran gweithredu cyfnerthu blawd ag asid ffolig yn cael eu cynrychioli'n gywir</b>				
<b>Mae'r costau i'r <u>llywodraeth/awdurdodau gorfodi</u> o ran gweithredu cyfnerthu blawd ag asid ffolig yn cael eu cynrychioli'n gywir</b>				

12a. Nodwch ba gostau sydd heb eu cynrychioli'n gywir yn eich barn chi, a rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn.

13. Mae dau opsiwn ar gyfer sut y gellid drafftio'r Rheoliadau Bara a Blawd. Rydym yn cynnig y dylent nodi faint o asid ffolig y mae'n rhaid ei ychwanegu at flawd, nid faint o asid ffolig y mae'n rhaid iddo fod yn bresennol mewn blawd (ac eithrio lle ceir eithriadau penodol, er enghraifft gwenith cyflawn). A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

- Rwy'n cytuno. Dylai'r rheoliad ei gwneud yn ofynnol ychwanegu asid ffolig ar 250mcg/100g o flawd gwenith
- Rwy'n anghytuno. Dylai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i "asid ffolig fod yn bresennol ar lefel o 187.5mcg/100g o flawd gwenith" (sy'n cyfrif am y golled a ragwelir o 25% yn ystod y cam cynhyrchu yn y broses atgyfnerthu).
- Ddim yn gwybod/dim sylw

15. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach neu dystiolaeth ategol ar y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cyfnerthu blawd ag asid ffolig yn orfodol?

## Cwmpas Cyfnerthu Gorfodol

Mae'r Rheoliadau Bara a Blawd yn pennu bod "blawd sy'n deillio o wenith" yn ddarostyngedig i'r gofynion cyfnerthu a nodir yn y ddeddfwriaeth ac eithrio rhai eithriadau penodol ynghylch gwenith cyflawn, blawd brag gwenith a blawd codi. Mae dehongliadau gwahanol o'r hyn y mae hyn yn ei olygu ar gyfer y math/rhywogaeth o wenith yr ystyrir eu bod o fewn cwmpas y rheoliadau. Mae rhanddeiliaid yn y diwydiant o'r farn bod y gofynion yn gymwys i flawd sy'n deillio o'r rhywogaeth wenith *Triticum aestivum* y cyfeirir ati'n aml fel "gwenith cyffredin" neu "wenith bara". Fodd bynnag, mae grawn eraill o wenith sy'n rhywogaethau o'r genws *Triticum*, gan gynnwys *Triticum Spelta* (a ddefnyddir ar gyfer blawd gwenith yr Almaen (*spelt*)) yn ogystal â grawn hynafol eraill y gellid eu hystyried a'u cynnwys.

Pan gyflwynwyd y gofynion cyfnerthu ar gyfer blawd gwenith nad yw'n gyflawn, nid oedd blawd o rawn gwenith hynafol amgen fel *Triticum Spelta* yn cael eu defnyddio'n gyffredin ar gyfer cynhyrchu bwyd yn y DU. Y bwriad wrth gyflwyno mesurau cyfnerthu gorfodol oedd atal diffygion maethol trwy gynyddu nifer y maethynnau gofynnol y mae pobl yn eu bwyta fel rhan o'u deiet trwy dargedu bwyd a oedd yn rhan o'r prif ddeiet, fel blawd "gwenith cyffredin". Felly, gellid ystyried bod blawd gwenith a gynhyrchir gyda grawn llai cyffredin eraill nad ydynt yn rhan o brif ddeiet y boblogaeth y tu allan i fwriad y rheoliadau. Felly, rydym ar ddeall nad yw blawd sy'n deillio o rawn eraill, fel blawd gwenith yr Almaen, yn cael ei gyfnerthu gan y diwydiant ar y sail hon ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, o ystyried nad yw'r rheoliadau ar hyn o bryd yn nodi mwy na "blawd sy'n deillio o wenith", mae rhai swyddogion gorfodi o'r farn bod blawd gwenith yr Almaen sy'n deillio o rawn gwenith yn dod o dan y rheoliadau.

Mae'r lefelau naturiol o faethynnau mewn blawd a wneir o rywogaethau eraill o wenith yn wahanol i flawd "gwenith cyffredin", ac felly byddai faint o faethynnau y byddai angen eu hychwanegu i adfer y lefelau hyn at y swm a gollwyd yn ystod y broses felino yn wahanol. Mae'r ffaith mai dim ond un set o werthoedd a ddarperir yn y rheoliadau yn cefnogi'r ddadl

bod cyfnerthu blawd wedi'i gyflwyno'n bennaf i adfer gwerth maethol "gwenith cyffredin" yn benodol.

Ar hyn o bryd, mae lefelau bwyta blawd gwenith wedi'i wneud â grawn heblaw "gwenith cyffredin" yn isel iawn. Yn y DU, mae tua 5 miliwn o dunelli o wenith yn cael ei felino bob blwyddyn i'w fwyta gan bobl.<sup>15</sup> Mae grawn amgen i "wenith cyffredin" yn cyfrif am oddeutu 1.8% o hyn.<sup>16</sup> Felly, gellir dadlau y byddai ei gwneud yn ofynnol i gyfnerthu'r blawdiau hyn yn rhoi baich diangen ar fusnesau, ac na fyddai'r effaith ar iechyd y cyhoedd yn sylweddol.

Byddai ei gwneud yn glir bod y gofynion cyfnerthu yn gymwys i "wenith cyffredin" yn unig hefyd yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael opsiynau amgen i flawd cyfnerthedig y tu hwnt i flawd nad yw wedi'i wneud o wenith. Gallai hyn fod yn arbennig o briodol o ystyried bod gan rai grwpiau o'r boblogaeth ofynion deietegol penodol sy'n golygu bod angen bwyta llai o faethynnau.

Wrth lunio opsiynau polisi, rydym wedi ystyried y pwyntiau hyn gan gydnabod y byddai'n fuddiol darparu eglurder ar y mater hwn er mwyn hwyluso dulliau cydymffurfio a gorfodi.

## Crynodeb o'r cynigion polisi

### Llinell sylfaen – Gwneud dim byd:

Byddai peidio â gweithredu yn debygol o olygu bod arferion presennol y diwydiant yn parhau, sef mai dim ond blawd sy'n deillio o "wenith cyffredin" sy'n cael ei gyfnerthu. Efallai y byddem yn colli'r cyfle i ddod â mwy o eglurder i'r rheoliadau.

### Newid arfaethedig – Egluro cwmpas y rheoliadau gan nodi bod gofynion cyfnerthu dim ond yn gymwys i flawd sy'n deillio o "wenith cyffredin"

Byddai'r opsiwn hwn yn egluro cwmpas gofynion blawd o ran cyfansoddiad mewn perthynas â lefel y maethynnau (ar hyn o bryd: calsiwm, haearn, thiamin a niasin), gan ei gwneud yn glir yn y rheoliadau bod hyn yn gymwys i "flawd sy'n deillio o *Triticum aestivum* (gwenith cyffredin)" yn hytrach na blawd sy'n deillio o rawn amgen. Byddai hyn yn rhoi mwy o eglurder ac yn sicrhau dealltwriaeth gyson o'r rheoliadau ar draws y diwydiant ac awdurdodau gorfodi. Byddai'r opsiwn hwn yn parhau i ganiatáu i flawd a gynhyrchir o rawn eraill o wenith gael ei werthu heb ei gyfnerthu gan osgoi unrhyw faich ychwanegol ar y

---

<sup>15</sup> Ffigurau a Ffeithiau am Melinwyr Blawd y DU.

<sup>16</sup> Cyswllt yn y diwydiant.



diwydiant ac mae'n adlewyrchu bwriad gwreiddiol y polisi, sef gwella faint o faethynnau sy'n cael eu bwyta fel rhan o ddeiet trwy dargedu prif fwydydd. Mae'n amlwg o'r ffigurau bwyta nad yw blawd a wneir o wenith heblaw *Triticum aestivum* (gwenith cyffredin) yn perthyn i'r categori hwn .

Mae'r opsiwn hwn yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr, gan ddarparu opsiynau amgen sydd heb eu hatgyfnerthu ochr yn ochr â blawd nad yw wedi'i wneud o wenith. Dylid ystyried hyn at ddiben y grwpiau poblogaeth neu'r unigolion hynny sydd ag anghenion deietegol penodol y cynghorir iddynt osgoi calsiwm a haearn weithiau. Dylid nodi, lle gallai defnyddwyr yn flaenorol ddewis blawd heb ei gyfnerthu wedi'i fewnforio o aelod-wladwriaethau'r UE, na fydd hwn ar gael mwyach ym Mhrydain Fawr o fis Hydref 2022 ymlaen (er y bydd yn parhau i fod yn opsiwn yng Ngogledd Iwerddon oherwydd y trefniadau cydnabyddiaeth gilyddol yn unol â Phrotocol Gogledd Iwerddon).

Mae risg fach y gallai cyfyngu cwmpas y gofynion cyfnerthu yn y modd hwn lesteirio budd y polisi i iechyd y cyhoedd yn y dyfodol. Er enghraifft, os bydd y defnydd o rawn amgen wrth gynhyrchu blawd yn cynyddu a'r defnydd o "wenith cyffredin" yn disgyn. Fodd bynnag, o ystyried y gwahaniaeth presennol yn y ffigurau o ran defnyddio blawd sy'n deillio o "wenith cyffredin" i gymharu â grawn eraill, mae'n annhebygol y bydd hyn yn cael effaith sylweddol.

## Cwestiynau

Mae asesiad o gostau a manteision pob un o'r opsiynau posib wedi'i ddarparu yn y cam ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r asesiad effaith. Nodir yr effeithiau posib ar y diwydiant, defnyddwyr ac awdurdodau lleol. Mae crynodeb byr sy'n dadansoddi costau a buddion yr opsiynau a ffefrir yn erbyn yr opsiynau 'gwneud dim' i'w weld yn y tabl isod.

Opsiwn Polisi	Defnyddwyr	Diwydiant	Llywodraeth/Awdurdodau Gorfodi Lleol
<b>Egluro cwmpas y rheoliadau gan nodi bod gofynion cyfnerthu dim ond yn gymwys i flawd sy'n deillio o "wenith cyffredin".</b>	<p>Costau:</p> <p>Dim costau sylweddol.</p> <p>Buddion:</p> <p>Rhagor o flawd y gallai defnyddwyr</p>	<p>Costau:</p> <p>Costau ymgyfarwyddo i felinwyr o ganlyniad i'r rheoliadau sy'n newid.</p> <p>Amcangyfrif o'r holl gostau ledled y sector: £ 4,600</p> <p>Buddion:</p>	<p>Costau:</p> <p>Costau ymgyfarwyddo ar gyfer awdurdodau gorfodi a chydymffurfio oherwydd y rheoliadau sy'n newid.</p> <p>Amcangyfrif o'r holl gostau ar gyfer pob un o'r 408 o awdurdodau lleol: £19,000.</p>



	sydd â gofynion deietegol ei ddewis.	Egluro gofynion cyfnerthu ar gyfer gwahanol fathau o flawd.	Buddion: Egluro gofynion cyfnerthu ar gyfer gwahanol fathau o flawd.
--	--------------------------------------	---	---

A yw'r crynodeb uchod yn cynrychioli'n gywir y prif gostau i'r diwydiant, defnyddwyr a'r llywodraeth/awdurdodau gorfodi (gweler adran 4.6 o'r Asesiad Effaith cysylltiedig am ddadansoddiad manylach o'r costau/buddion a'r rhagdybiaethau t.36-39)?

	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod/dim sylw
<b>Mae costau a buddion y newidiadau polisi arfaethedig i'r diwydiant yn cael eu cynrychioli'n gywir</b>				
<b>Mae costau a buddion y newidiadau polisi arfaethedig i ddefnyddwyr yn cael eu cynrychioli'n gywir</b>				
<b>Mae costau a buddion y newidiadau polisi arfaethedig i'r llywodraeth/awdurdodau gorfodi'n cael eu cynrychioli'n gywir</b>				

16a. Nodwch unrhyw gostau neu fuddion sydd heb eu cynrychioli'n gywir yn eich barn chi, a rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn.

17. Nodwch eich barn ar yr opsiynau canlynol (dewiswch un opsiwn fesul rhes):

	<b>Ydw, rwy'n cefnogi hyn</b>	<b>Nac ydw, nid wyf yn cefnogi hyn</b>	<b>Ddim yn gwybod/dim barn</b>
--	-------------------------------	--	--------------------------------

<b>Gwneud dim byd</b>			
<b>Egluro cwmpas y rheoliadau gan nodi bod gofynion cyfnerthu dim ond yn gymwys i flawd sy'n deillio o "wenith cyffredin" (opsiwn arfaethedig)</b>			

17a. Os nad ydych yn cefnogi unrhyw elfen o'r cynnig (i egluro cwmpas y rheoliadau gan nodi bod gofynion cyfnerthu dim ond yn gymwys i flawd sy'n deillio o "wenith cyffredin") , esboniwch pam a rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn.

18. (Ar gyfer melinwyr) A ydych yn ymwybodol o unrhyw felinwyr sy'n ychwanegu maethynnau at flawd wedi'i wneud o rawn gwahanol i *Triticum aestivum* "gwenith cyffredin"? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Ydw
- Nac ydw

18. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod cyfyngu'r gofynion cyfnerthu i flawd a wneir o "wenith cyffredin" *Triticum aestivum* yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

19. Pa mor debygol yw hi y bydd "gwenith cyffredin" *Triticum aestivum* yn cael ei ddefnyddio llai wrth gynhyrchu blawd? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Tebygol iawn
- Tebygol
- Ddim yn debygol nac yn annhebygol
- Annhebygol
- Annhebygol iawn
- Ddim yn gwybod

20. Os hoffech ychwanegu unrhyw sylwadau pellach neu dystiolaeth ategol at eich ymatebion i gwestiynau 16-19 uchod, neu unrhyw sylwadau eraill sy'n berthnasol i'r cynnig i gyfyngu'n benodol ar ofynion cyfnerthu blawd i flawd sy'n deillio o "wenith cyffredin", gwnewch hynny yma: (Testun rhydd)

## Eithriadau

### Melinau Bach

Yn y DU, mae blawd weithiau'n cael ei felino mewn cyfeintiau cymharol fach o'i gymharu â melino ar raddfa ddiwydiannol safonol sy'n cyfrif am y mwyafrif helaeth o flawd cyffredinol y DU. Mae'r rhan hon o'r diwydiant yn cynnwys melinau sy'n defnyddio dulliau melino traddodiadol yn bennaf, gan gynhyrchu blawd drwy ddefnyddio meini melin llorweddol mewn adeiladau hanesyddol sy'n cael eu pweru gan ynni gwynt a dŵr. Mae'r dulliau a fabwysiedir. Mae'r dulliau a fabwysiadwyd gan y melinau hyn yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau bod fitaminau a mwynau a ychwanegir at flawd yn cael eu dosbarthu'n gywir. Nid yw gosod y peiriannau sydd eu hangen i sicrhau bod maethynnau'n cael eu gwasgaru'n gyson yn ymarferol ar gyfer llawer o'r melinau bach hyn oherwydd cyfyngiadau'r adeiladau rhestredig lle y ceir y melinau. Yn yr un modd, mae llawer o felinau llai wedi'u cyfyngu gan yr arian sydd ar gael i ariannu'r gwaith o osod peiriannau o'r fath. Felly, mae cydymffurfio â'r rheoliadau yn rhoi baich anghymesur ar y melinau hyn o gymharu â melinau diwydiannol safonol. Mae'r opsiynau polisi isod yn ystyried ffyrdd y gall ymyrraeth y llywodraeth fynd i'r afael â'r pryderon hyn heb gyfaddawdu ar ganlyniadau ehangach y Rheoliadau Bara a Blawd mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd.

### Cynhyrchion sy'n cynnwys y lefelau isaf o flawd

Mae rhai rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi codi pryderon am rai o'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau Bara a Blawd. Mae hyn wedi'i briodoli'n bennaf i'r newidiadau i reolau labelu yn 2014 (o dan Reoliad 1169/2011) a oedd yn mynnu bod y fitaminau a'r mwynau a ychwanegir at flawd yn cael eu datgan ar restr gynhwysion y label. Awgrymwyd bod hyn wedi arwain at anfantais gystadleuol wrth allforio cynhyrchion i aelod-wladwriaethau penodol yr UE nad ydynt ar hyn o bryd yn deddfu ar gyfer cyfnerthu blawd yn orfodol. Felly gall aelod-wladwriaethau'r UE ddewis cynnyrch blawd arall sydd heb ei gyfnerthu sydd ar gael yn rhwydd gan gystadleuwyr Prydain Fawr o wledydd eraill .

Mae camau eisoes wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hyn wrth i newidiadau deddfwriaethol ganiatáu gwerthu (neu fewnforio) blawd heb ei gyfnerthu os yw i'w allforio neu i'w ddefnyddio mewn cynnyrch sydd i'w allforio. Fodd bynnag, mae gweithgynhyrchwyr wedi

dadlau bod y costau sy'n dod o gael dwy linell gynhyrchu ar wahân ar gyfer y marchnadoedd allforio a domestig yn aml yn drech na'r budd o ddefnyddio blawd heb ei gyfnerthu mewn cynhyrchion sy'n cynnwys ychydig iawn o flawd i'w allforio.

Mae'r mater hwn wedi codi pryderon arbennig ymhlith sectorau'r diwydiant sy'n defnyddio symiau bach o flawd fel cynhwysyn yn eu cynhyrchion. Gellid lliniaru'r mater hwn drwy ganiatáu cynhyrchu a gwerthu (neu fewnforio) blawd heb ei gyfnerthu sy'n cael ei ddefnyddio fel cynhwysyn sy'n bresennol ar lefel isel mewn cynnyrch heb beryglu amcanion iechyd y cyhoedd. Rydym wedi edrych ar yr opsiwn hwn yn y gorffennol ac wedi ceisio barn ar y posibilrwydd hwn mewn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2013 (roedd hyn yn ystyried y newidiadau labelu arfaethedig y byddai Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd yn eu rhoi ar waith) ond yn gyffredinol ni chafodd ei gefnogi oherwydd teimlwyd ei fod yn rhy heriol yn logistaidd. Dadleuodd melinwyr nad oeddent yn gwybod sut y byddai'r blawd yn cael ei ddefnyddio ac felly, gallent fod yn cyflawni trosedd heb wybod. Yn dilyn y newidiadau labelu a ddaeth i rym, codwyd y mater hwn eto. Edrychwyd ar ffyrdd eraill o liniaru gan gynnwys defnyddio codau CN (Enw Cyfunol (*Combined Nomenclature*)), ond tyfodd y rhestr o gynhyrchion ac roedd diffyg consensws ynghylch pa gynhyrchion y dylid eu heithrio.

Gan ein bod yn adolygu'r Rheoliadau Bara a Blawd, rydym bellach yn ailystyried yr opsiwn o gyflwyno eithriad ar gyfer blawd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cynhyrchion lle na fydd ond swm bach iawn o flawd yn bresennol fel cynhwysyn yng nghyfansoddiad cyffredinol y cynnyrch. Cyn ymadawiad y DU â'r UE nid oedd blawd a fewnforiwyd o aelod-wladwriaethau'r UE yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau Bara a Blawd o ganlyniad i'r trefniadau cydnabyddiaeth gilyddol, a hynny er mwyn sicrhau symudiad rhydd nwyddau o fewn marchnad sengl yr UE. Ni fydd hyn yn wir mwyach ar ôl ymadael â'r UE yn sgil y newidiadau sy'n dod i rym o fis Hydref 2022 ymlaen sy'n golygu y bydd blawd a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE i Brydain Fawr yn destun gofynion a nodir yn y Rheoliadau Bara a Blawd.<sup>17</sup> Felly, erbyn hyn ym Mhrydain Fawr, nid oes gan y rheiny sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion sy'n cynnwys symiau bach iawn o flawd fynediad at flawd heb ei gyfnerthu sy'n dod o fewnforion i'w ddefnyddio yn y cynhyrchion hyn ar gyfer y farchnad ddomestig. Mae rhai rhanddeiliaid yn y diwydiant a oedd yn flaenorol yn erbyn cael eithriad ar gyfer blawd a ddefnyddir yn y cynhyrchion hyn wedi cydnabod bod y newid hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar y ddadl dros eithriad ar gyfer blawd a ddefnyddir yn y cynhyrchion hyn. Er y bydd blawd heb ei gyfnerthu sy'n cael ei fewnforio o aelod-wladwriaethau'r UE ar gael o hyd yng Ngogledd Iwerddon, mae dal yn bwysig sicrhau chwarae teg ar draws y DU. Byddem am osgoi senario lle na all melinwyr sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon gynhyrchu blawd heb ei gyfnerthu ar gyfer cynhyrchion eithriedig

---

<sup>17</sup> O dan delerau Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon, mae cydnabyddiaeth gilyddol yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer cynhyrchion o aelod-wladwriaethau'r UE a werthir yng Ngogledd Iwerddon.

ond gall melinwyr sydd wedi'u lleoli ym Mhrydain Fawr wneud hyn. Felly, er gwaethaf argaeledd parhaus blawd heb ei gyfnerthu a fewnforir o'r UE yng Ngogledd Iwerddon, mae'r eithriad hwn yn cael ei ystyried ledled y DU.

Mae rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai rhestru'r maethynnau hyn ar restr gynhwysion cynhyrchion sy'n cynnwys symiau bach iawn o flawd yn y cynnyrch terfynol fod yn gamarweiniol, o ystyried symiau bach y maethynnau hyn a fyddai i'w cael yn y cynnyrch.

Yng ngoleuni'r pwyntiau hyn, rydym wedi barnu ei bod yn synhwyrol ailystyried yr opsiwn o gyflwyno eithriad ar gyfer cynhyrchion nad ydynt yn cynnwys llawer o flawd lle mae'r manteision iechyd i ddefnyddwyr yn fach iawn ac nad yw amcanion ehangach y rheoliadau mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd yn cael eu peryglu.

## Crynodeb o gynigion polisi

### Melinau bach

#### **Llinell sylfaen – Gwneud dim byd:**

Dim newid deddfwriaethol.

Byddai angen i felinau bach i gyfnerthu blawd gwenith nad yw'n gyflawn o hyd. Mae perygl y byddai hyn yn arwain at gau rhai melinau oherwydd y baich cymharol uwch ar felinau llai o ran cyfnerthu o gymharu â melinau diwydiannol mawr. Pe bai'r melinau'n gallu parhau i gynhyrchu, efallai y byddai rhwystrau technegol o ran gallu cydymffurfio'n gyson oherwydd yr anawsterau wrth ddosbarthu maethynnau fel yr amlinellwyd uchod. O ganlyniad, mae mwy o siawns y byddai defnyddwyr yn cael eu camarwain ynghylch y maethynnau sy'n bresennol yn y blawd.

#### **Newid arfaethedig – Bydd melinau bach sy'n cynhyrchu llai na 500 tonnall fetrig o flawd y flwyddyn wedi'u heithrio rhag gofynion cyfnerthu:**

Byddai'r newid rheoliadol hwn yn caniatáu i felinau sy'n cynhyrchu llai na 500 tonnall fetrig o flawd gwenith nad yw'n gyflawn y flwyddyn ddewis peidio ag ychwanegu'r maethynnau gofynnol at flawd, gan ystyried y baich anghymesur y mae cydymffurfio â'r gofynion cyfnerthu yn ei roi ar y melinau bach hyn. Rydym wedi adolygu'r data sydd ar gael ar allbwn cynhyrchu melinau blawd sy'n cyrraedd y trothwy arfaethedig o 500 o dunelli. Amcangyfrifir bod melinau sy'n dod o dan y categori hwn yn cyfrannu at lai na 0.05% o'r blawd a gynhyrchir yn y DU. Felly, byddem yn disgwyl i'r effaith ar amcanion iechyd y cyhoedd y polisi fod yn ddibwys. Yn dilyn sgysiau gyda rhanddeiliaid, rydym wedi asesu

bod y trothwy hwn yn ddigonol ar gyfer melinau bach lle mae'r gofynion cyfnerthu yn rhoi baich anghymesur ar eu busnesau.

Mae risg y gallai defnyddio'r eithriad hwn olygu bod nifer fach o ddefnyddwyr yn colli allan ar fanteision maethol blawd cyfnerthedig. Fodd bynnag, byddai dewis pellach yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr sydd ag anghenion dietegol penodol.

Byddai angen i fusnesau sy'n gwerthu blawd o dan yr eithriad hwn sicrhau bod labeli'n cael eu diweddarau gan ddileu'r maethynnau ychwanegol gorfodol oddi ar label y blawd er mwyn sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain ynghylch cyfansoddiad y blawd. Er mwyn i'r opsiwn hwn weithio, byddai angen i felinwyr sy'n dod o dan yr eithriad fonitro allbwn blawd yn gywir, a gallai swyddogion gorfodi ei wirio i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

## Cynhyrchion sy'n cynnwys y lefelau isaf o flawd

### **Llinell sylfaen – Gwneud dim byd:**

Gallai cyflwyno asid ffolig i'r maethynnau a ychwanegir yn orfodol at flawd roi'r rheiny sy'n cynhyrchu cynhyrchion sy'n cynnwys symiau bach iawn o flawd dan anfantais bellach wrth allforio i aelod-wladwriaethau'r UE o gymharu â mewnforywyr o wledydd eraill.

Fodd bynnag, mae gan fusnesau opsiwn eisoes i ddefnyddio blawd heb ei gyfnerthu mewn cynhyrchion i'w allforio, er bod costau ychwanegol ynghlwm wrth gael llinellau cynhyrchu ar wahân ar gyfer cynhyrchu domestig ac allforio.

### **Newid arfaethedig – Eithrio blawd i'w ddefnyddio mewn cynnyrch pan fydd yn bresennol fel cynhwysyn ar <10%**

Byddai'r cynnig hwn yn caniatáu i flawd heb ei gyfnerthu gael ei werthu i'w ddefnyddio fel cynhwysyn mewn cynnyrch (lle mae'n ffurfio llai na 10% o'r cynnyrch terfynol) gan alluogi busnesau i ddefnyddio un llinell gynhyrchu ar gyfer marchnadoedd domestig a rhyngwladol a sicrhau chwarae teg ar gyfer busnesau'r DU mewn marchnadoedd rhyngwladol. Mae'r lefel awgrymedig hon wedi'i chynnig gan nad yw cynhyrchion o dan y trothwy hwn yn cael eu hystyried yn gyfryngau allweddol sy'n cyfrannu at faint o'r maethynnau ychwanegol hyn a fwyteir fel rhan o ddeiet. Disgwylir, felly, y byddai eithrio'r cynhyrchion hyn yn cael effaith fach iawn ar effeithiolrwydd y polisi fel mesur iechyd y cyhoedd. Mae'r rhagdybiaeth hon yn gyson ag ymarferion modelu blaenorol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN) a oedd yn eithrio blawd o

gynhyrchion yr amcangyfrifir eu bod yn cynnwys llai na 10% o flawd.<sup>18</sup> Mae [gwaith modelu Safonau Bwyd yr Alban ar effeithiau cynhyrchion sydd wedi'u heithrio rhag atgyfnerthu ag asid ffolig](#) sy'n cynnwys llai na 4% o flawd gwenith nad yw'n gyflawn, yn awgrymu y gellid cyflawni'r effaith enghreifftiol o atgyfnerthu ag asid ffolig os yw cynhyrchion sy'n cynnwys llai na 4% o flawd gwenith nad yw'n gyflawn wedi'u heithrio. Mae dadansoddiad o ddata 2016-19 o'r Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth ar gyfer y DU gyfan yn awgrymu bod cyfraniad cynhyrchion sy'n cynnwys 4-9% o flawd gwenith nad yw'n gyflawn (gan ddod â chyfanswm yr eithriad i lai na 10%) at faint o flawd gwenith nad yw'n gyflawn sy'n cael ei fwyta yn llai na 5g y dydd. Felly, mae lefelau o asid ffolig o gynhyrchion sy'n cynnwys 4-9% o flawd gwenith nad yw'n gyflawn yn debygol o fod yn fach.

Byddai'r eithriad arfaethedig hwn, ochr yn ochr â'r cynnig i eithrio melinau bach, yn debygol o gynyddu faint o flawd heb ei gyfnerthu sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU. Mae hyn yn creu angen i felinwyr nodi'n glir y telerau defnyddio ar gyfer gweithgynhyrchwyr cynhyrchion a wneir o flawd er mwyn sicrhau bod blawd heb ei gyfnerthu a werthir o dan yr eithriad hwn (i'w ddefnyddio mewn cynhyrchion sy'n cynnwys llai na 10% o flawd) neu'r eithriad ar gyfer cynhyrchion blawd y bwriedir eu hallforio, ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchion cymwys. Ar hyn o bryd mae'r Rheoliadau Bara a Blawd yn gosod y rhwymedigaeth uniongyrchol o ran cyfnerthu blawd ar gynhyrchwyr blawd a mewforwyr. Mae'n bosibl y bydd angen ymestyn rhwymedigaethau penodol i weithgynhyrchwyr cynhyrchion sy'n cynnwys blawd er mwyn caniatáu i gamau gorfodi gael eu cymryd yn erbyn y parti cyfrifol pe bai blawd a brynwyd o dan un o'r eithriadau hyn yn cael ei ddefnyddio mewn cynnyrch nad yw'n gymwys (gweler cwestiwn 34).

## Cwestiynau

Mae asesiad o gostau a manteision pob un o'r opsiynau posib wedi'i ddarparu yn y cam ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r asesiad effaith. Nodir yr effeithiau posib ar y diwydiant, defnyddwyr ac awdurdodau lleol. Mae crynodeb byr sy'n dadansoddi costau a buddion y newidiadau arfaethedig yn erbyn yr opsiynau 'gwneud dim' i'w weld yn y tabl isod.

Cynigion Polisi	Defnyddwyr	Diwydiant	Llywodraeth/Awdurdodau Gorfodi Lleol
<b>Mae melinau bach sy'n cynhyrchu</b>	Costau:	Costau: <i>Eithriad ar gyfer melinau bach:</i>	Costau:

<sup>18</sup> Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth: Goblygiadau Maethol Diddymu Rheoliadau Bara a Blawd y DU 2012

<p><b>Ilai na 500 tunnell fetrig o flawd y flwyddyn wedi'u heithrio rhag gofynion cyfnerthu.</b></p> <p><b>Blawd wedi'i eithrio i'w ddefnyddio mewn cynnyrch fel mân gynhwysyn &lt;10%</b></p>	<p>Gostyngiad ymylol i rai defnyddwyr o ran faint o faethynnau a fwyteir</p> <p>Buddion:</p> <p>Mwy o ddewis i ddefnyddwyr wrth brynu cynhyrchion a wneir o flawd heb ei gyfnerthu.</p> <p><b><i>Eithriad ar gyfer melinau bach</i></b></p> <p>Mae defnyddwyr yn rhoi gwerth ar y melinau bach hyn a byddant yn parhau i elwa arnynt.</p>	<p>Costau ymgyfarwyddo ar gyfer melinau bach Amcangyfrif o'r holl gostau ledled y sector: £ 7,800</p> <p>Costau labelu.</p> <p>Gostyngiad posib mewn faint o gynhyrchion wedi'u cymysgu ymlaen llaw sy'n cael eu gwerthu.</p> <p>Gostyngiad posib mewn allbwn blawd i felinau sy'n cynhyrchu ychydig dros 500 o dunelli'r flwyddyn.</p> <p><b><i>Cynhyrchion wedi'u heithrio oherwydd cynnwys blawd isel:</i></b></p> <p>Costau ymgyfarwyddo</p> <p>Potensial ar gyfer costau cynhyrchu ychwanegol os yw melinau'n cynhyrchu blawd cyfnerthedig a blawd heb ei gyfnerthu.</p> <p>Costau cydymffurfio.</p> <p>Buddion:</p> <p><b><i>Eithriad ar gyfer melinau bach</i></b></p> <p>Gostyngiad mewn costau cyfnerthu ar gyfer melinwyr sy'n gymwys ar gyfer yr eithriad.</p> <p>Byddai hyfywedd melinwyr bach yn cael ei gefnogi.</p> <p><b><i>Cynhyrchion wedi'u heithrio oherwydd cynnwys blawd isel</i></b></p> <p>Masnach: cynyddu ysbryd cystadleuol mewn marchnadoedd Ewropeaidd lle mae cyfnerthu gorfodol yn cael ei ystyried yng ngoleuni anffafriol.</p> <p>Potensial ar gyfer costau mewnbwn is, os yw blawd heb ei gyfnerthu yn llai costus i'w gynhyrchu.</p>	<p>Costau ymgyfarwyddo ar gyfer awdurdodau gorfodi a chydymffurfio oherwydd y rheoliadau sy'n newid.</p> <p>Amcangyfrif cyfunol o gostau ar gyfer pob un o'r 408 o awdurdodau lleol: £19,000</p> <p>Buddion:</p> <p><b><i>Cynhyrchion wedi'u heithrio oherwydd cynnwys blawd isel</i></b></p> <p>Buddiannau'r Trysorlys: mwy o referniw treth oherwydd mwy o fasnach.</p> <p>Llai o risg y bydd busnesau'n cael eu hadleoli dramor.</p> <p><b><i>Eithriad ar gyfer melinau bach</i></b></p> <p>Arbedion sy'n ymwneud â pheidio â gorfod gorfodi rheoliadau mwyach i awdurdodau gorfodi.</p> <p>'Diogelu at y dyfodol' ar gyfer ardaloedd lle nad oes melinau 'bach' neu ychydig iawn ohonynt.</p>
--	---	---	---



--	--	--	--

21. A yw'r crynodeb uchod yn cynrychioli'n gywir y prif gostau i'r 1) diwydiant, 2) defnyddwyr a'r 3) llywodraeth/awdurdodau gorfodi ar gyfer y cynnig i eithrio melinau sy'n cynhyrchu llai na 500 o dunelli o flawd (gweler adran 4.7 o'r Asesiad Effaith cysylltiedig am ddadansoddiad manylach o'r dadansoddiad o gost/budd a'r cyfrifiadau t.39-43)?

	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod/dim sylw
Mae costau a buddion i'r <u>diwydiant</u> mewn perthynas â'r eithriad arfaethedig rhag cyfnerthu ar gyfer melinau sy'n cynhyrchu llai na 500 o dunelli o flawd yn cael eu cynrychioli'n gywir				
Mae costau a buddion i'r <u>ddefnyddwyr</u> mewn perthynas â'r eithriad arfaethedig rhag cyfnerthu ar gyfer melinau sy'n cynhyrchu llai na 500 o dunelli o flawd yn cael eu cynrychioli'n gywir				
Mae costau a buddion i'r <u>llywodraeth/awdurdodau gorfodi</u> mewn perthynas â'r eithriad arfaethedig rhag cyfnerthu ar gyfer melinau sy'n cynhyrchu llai na 500 o dunelli o flawd yn cael eu cynrychioli'n gywir				

21a. Nodwch ba gostau neu fuddion sydd heb eu cynrychioli'n gywir yn eich barn chi, a rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn.

22. A yw'r crynodeb uchod yn cynrychioli'n gywir y prif gostau i'r 1) diwydiant, 2) defnyddwyr a'r 3) llywodraeth/awdurdodau gorfodi ar gyfer y cynnig i eithrio blawd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cynnyrch fel mân gynhwysyn (gweler adran 4.7 o'r Aseiad Effaith cysylltiedig am ddadansoddiad manylach o'r dadansoddiad o gost/budd a'r cyfrifiadau t.39-43)?

	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod/dim sylw
<b>Mae'r costau a'r buddion i'r diwydiant mewn perthynas â'r eithriad arfaethedig ar gyfer blawd i'w ddefnyddio mewn cynnyrch mân gynhwysyn &lt;10% yn cael eu cynrychioli'n gywir.</b>				
<b>Mae'r costau a'r buddion i <u>ddefnyddwyr</u> mewn perthynas â'r eithriad arfaethedig ar gyfer blawd i'w ddefnyddio mewn cynnyrch fel mân gynhwysyn &lt;10% yn cael eu cynrychioli'n gywir</b>				
<b>Mae'r costau a'r buddion i'r <u>llywodraeth/awdurdodau gorfodim</u> mewn perthynas â'r eithriad arfaethedig ar gyfer blawd i'w ddefnyddio mewn cynnyrch fel mân gynhwysyn &lt;10% yn cael eu cynrychioli'n gywir</b>				

22a. Nodwch ba gostau neu fuddion sydd heb eu cynrychioli'n gywir yn eich barn chi, a rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn. (Testun rhydd)

23. Nodwch eich cefnogaeth ar gyfer yr opsiynau canlynol (dewiswch un opsiwn fesul rhes):

	Ydw, rwy'n cefnogi hyn	Nac ydw, nid wyf yn cefnogi hyn	Dydw i ddim yn gwybod/dim barn
<b>Gwneud dim</b>			
<b>Mae melinau bach sy'n cynhyrchu llai na 500 tonnall fetrig o flawd y flwyddyn wedi'u heithrio rhag gofynion cyfnerthu</b>			
<b>Blawd wedi'i eithrio i'w ddefnyddio mewn cynnyrch fel mân gynhwysyn &lt;10%</b>			

24. Yn eich barn chi, a yw gosod trothwy ar gyfer gofynion cyfnerthu wrth gynhyrchu 500 o dunelli metrig bob blwyddyn yn: (dewiswch un opsiwn yn unig)

- lawn ar y cyfan
- Rhy uchel
- Rhy isel
- Ddim yn gwybod/dim sylw

25. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r cynnig i eithrio melinau bach yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar faint o faethynnau y mae defnyddwyr yn eu bwyta? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Rwy'n cytuno – mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar faint o faethynnau y mae defnyddwyr yn eu bwyta
- Rwy'n anghytuno – mae'n debygol o gael effaith sylweddol ar faint o faethynnau y mae defnyddwyr yn eu bwyta
- Ddim yn gwybod/Dim sylw

26. (Ar gyfer Awdurdodau Gorfodi) A oes gennych unrhyw bryderon mawr ynghylch monitro melinau sy'n cynhyrchu llai na 500 o dunelli metrig y flwyddyn o dan yr eithriad arfaethedig? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Oes, mae gennyf bryderon mawr

- Nac oes, nid oes gennyf bryderon mawr
- Ddim yn gwybod/dim sylw

26a. Os mai 'oes' oedd yr ateb, pa rai o'r rhesymau isod, os o gwbl, yn egluro eich ateb? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Diffyg adnoddau
- Diffyg amser
- Diffyg prosesau clir
- Arall (rhowch fanylion)

**B): Cwestiynau ar y cynnig i eithrio blawd i'w ddefnyddio fel mân gynhwysyn mewn cynnyrch terfynol**

27. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cynnig i eithrio blawd sy'n ffurfio llai na 10% o gynnyrch yn rhesymol? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

28. (Ar gyfer Rhanddeiliaid y Diwydiant) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddai'r eithriad arfaethedig hwn yn cefnogi busnesau'r DU i gystadlu ar sail fwy cyfartal â chystadleuaeth ryngwladol mewn marchnadoedd allforio? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

29. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddai'r cynnig i eithrio blawd sy'n ffurfio llai na 10% o gynnyrch yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar faint o faethynnau y mae defnyddwyr yn eu bwyta? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno

- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod/dim sylw

30. (Ar gyfer Awdurdodau Gorfodi) A oes gennych unrhyw bryderon mawr ynghylch gorfodi'r rheoliadau pe bai'r cynnig i eithrio blawd mewn cynhyrchion lle mae'n ffurfio <10% o'r cynnyrch terfynol yn mynd yn ei flaen? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod/dim sylw

30a. Os mai 'oes' oedd yr ateb, pa rai o'r rhesymau isod, os o gwbl, yn egluro eich ateb? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Diffyg adnoddau
- Diffyg amser
- Diffyg prosesau clir
- Arall (rhowch fanylion)

31. Os hoffech ychwanegu unrhyw sylwadau pellach neu dystiolaeth ategol at eich ymatebion i gwestiynau 21-30 uchod, neu unrhyw sylwadau eraill sy'n berthnasol i'r cynigion a drafodwyd, gwnewch hynny yma:

## Gorfodi

Swyddogion safonau masnach a swyddogion iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth sy'n gorfodi'r Rheoliadau Bara a Blawd (Gweler y rhestr o awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon wrth glicio ar y ddolen i ddata safonau bwyd [yma](#) ac [yma](#) ar gyfer awdurdodau lleol yn yr Alban).

Mae'r Rheoliadau Bara a Blawd cyfredol yn darparu sancsiynau troseddol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn unig. Nid yw hyn yn cyd-fynd â deddfwriaeth safonau bwyd debyg yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, hynny yw, y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd, y Rheoliadau Mêt a'r Rheoliadau Sudd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau sy'n mabwysiadu dull mwy cymesur a thargededig o weithredu, gan symud at hysbysiadau

gwella fel opsiwn gorfodi cychwynnol.<sup>19</sup> Gall swyddog awdurdodedig gyflwyno hysbysiad gwella os oes gan awdurdod gorfodi sail resymol dros gredu bod gweithredwr busnes bwyd yn methu â chydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol. Mae'r hysbysiad yn amlinellu'r mater sy'n gyfystyr â diffyg cydymffurfio ac yn pennu mesurau y mae'n rhaid i'r perchennog, ym marn y swyddog, eu dilyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o fewn cyfnod amser penodedig. Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella yn euog o drosedd.

Ar hyn o bryd, ni ddefnyddir hysbysiadau gwella i orfodi rheoliadau safonau bwyd yn yr Alban. Fodd bynnag, mae'r Alban yn ystyried cyflwyno hysbysiadau cydymffurfio fel mesur gorfodi tebyg ar gyfer deddfwriaeth safonau bwyd.

Mae symud tuag at ddefnyddio hysbysiadau gwella fel rhan o'r drefn orfodi yn cael ei ystyried yn ffordd effeithlon o gywiro diffyg cydymffurfio, gan leihau costau a'r amser i fusnesau ddatrys problemau. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei ystyried yn ffordd o leihau costau gormodol sy'n gysylltiedig ag amser llys pan fydd achos troseddol yn cael ei gyflwyno.

Yn Lloegr, byddai busnesau'n cael cyfle i apelio yn erbyn hysbysiad gwella i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys Haen Gyntaf) (Siambwr Rheoleiddio Cyffredinol) 2009 i'w gweld [yma](#)

Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, byddai busnesau'n cael cyfle i apelio yn erbyn hysbysiad gwella i'r Llys Ynadon.

## Y Cynnig

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio ar gyfer gofynion safonau bwyd yn yr Alban. Felly, mae'r cynnig a'r cwestiynau canlynol isod yn berthnasol i newidiadau posib i'r Rheoliadau Bara a Blawd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unig.

Rydym yn bwriadu newid y drefn orfodi gyfredol sydd ond yn darparu ar gyfer sancsiynau troseddol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio, i gyfundrefn fwy cymesur ac wedi'i thargedu

---

<sup>19</sup> Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014; Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Lloegr) 2014; Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Gogledd Iwerddon) 2014; Rheoliadau Sudd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013; Rheoliadau Sudd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Lloegr) 2013; Rheoliadau Sudd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Gogledd Iwerddon) 2013; Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015; Rheoliadau Mêl (Lloegr) 2015; Rheoliadau Mêl (Gogledd Iwerddon) 2015.

sy'n caniatáu defnyddio hysbysiadau gwella. Byddai gan fusnesau gyfle i apelio yn erbyn hysbysiad gwella. Byddai methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella yn drosedd y gellir rhoi dirwy amdani.

## Cwestiynau

32. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod cyflwyno hysbysiadau gwella i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn ddull mwy cymesur o orfodi na'r drefn orfodi gyfredol sydd ond yn darparu ar gyfer sancsiynau troseddol? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod/dim sylw

33. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddai defnyddio hysbysiadau gwella yn datrys problemau diffyg cydymffurfio yn effeithlon? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod/dim sylw

34. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai gorfodi'r rheoliadau gwmpasu gweithgynhyrchwyr cynhyrchion a wneir o flawd lle mae blawd heb ei gyfnerthu yn cael ei brynu o dan yr amod ei fod i'w ddefnyddio mewn cynnyrch sydd wedi'i eithrio neu i'w allforio y tu allan i'r DU? (Testun rhydd)

35. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar y newid arfaethedig i orfodi'r Rheoliadau Bara a Blawd? (Testun rhydd)

## Cwestiynau Cyffredinol ar Weithredu Newidiadau Polisi

36. Mae'r cynnig i ychwanegu asid ffolig at flawd gwenith nad yw'n gyflawn yn gofyn am amser i'r diwydiant allu addasu cynhyrchion wedi'u cymysgu ymlaen llaw a gwneud



newidiadau yn sgil hynny i'r labeli a fydd yn effeithio ar ystod eang o gynhyrchion. Cynigir cyfnod pontio o 24 mis cyn i gynigion a gyflwynir ddod i rym er mwyn darparu ar gyfer hyn. Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod pontio arfaethedig o 24 mis i'r gofynion newydd ddod i rym yn: (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Rhesymol
- Rhy fyr
- Rhy hir
- Ddim yn gwybod/dim sylw

36a. Os ydych yn anghytuno â'r cyfnod pontio arfaethedig, esboniwch pam.

## Camau nesaf

Byddwn yn adolygu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir a fydd yn cael ei defnyddio i fireinio cynigion ymhellach a llywio'r asesiad effaith. Disgwylir i grynodedeb o'r ymatebion gael ei gyhoeddi ar wefan gov.uk cyn pen 12 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Gweinidogion o lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gwneud penderfyniad terfynol ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol, gan ystyried yr ymatebion a ddaeth i law.